

Ar Goll Ar ôl Gofal

Gorffennaf 2011



Cynnwys

04	Cyflwyniad	46	Tai
06	Cefndir Polisi	52	Iechyd
12	Beth wnaethon ni	60	Byw'n Annibynnol
14	Gwasanaethau Cymdeithasol	74	Casgliad
30	Addysg	76	Blaenoriaethau ar gyfer gwella gwasanaeth

Er Cof

Cyflwynir y cyhoeddiad hwn er cof am Syr Ronald Waterhouse a fu farw ar 8 Mai 2011. Arweiniodd ymchwiliad tair blynedd Syr Ronald i gam-drin plant yng ngogledd Cymru at gyhoeddi Lost In Care ym mis Chwefror 2000. Fe'i disgrifiwyd ar y pryd fel adroddiad tirnod, ac roedd yn canolbwyntio ar gamdriniaeth eang yn y system ofal, gan arwain at newidiadau cadarnhaol helaeth i blant mewn gofal, yn cynnwys creu swydd Comisiynydd Plant Cymru yn 2001.

Mae cyfres o gyfreithiau, yn cynnwys Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001, sy'n esbonio rôl a chyfrifoldebau'r Comisiynydd.

Rydyn ni eisiau gweld Cymru fel gwlad lle mae plant a phobl ifanc yn cael eu parchu, eu gwerthfawrogi, yn cael gwrandawriad, ac yn cael eu cefnogi i fyw bywydau diogel a hapus. Mae fîm o bobl yn gweithio gyda Keith Towler – yn Abertawe a Bae Colwyn - i'w helpu i wneud y canlynol:

- ☞ cefnogi plant a phobl ifanc i gael gwybod am hawliau plant
- ☞ gwrandao ar blant a phobl ifanc i ddarganfod beth sy'n bwysig iddyn nhw
- ☞ cyngori plant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu amdany'n nhw os byddan nhw'n teimlo eu bod nhw'n methu mynd â'u problemau at neb arall
- ☞ dylanwadu ar y llywodraeth a chyrrff eraill sy'n dweud eu bod nhw'n mynd i wneud gwahaniaeth i fywydau plant, gan wneud yn siŵr eu bod nhw'n cadw eu haddewidion i blant a phobl ifanc
- ☞ codi llais dros blant a phobl ifanc yn genedlaethol ar faterion pwysig – bod yn bencampwr i blant Cymru.

Gallwch gael hyd i gopiâu o'n holl adroddiadau a'u lawrlwytho ar ein gwefan

www.complantcymru.org.uk

Cyflwyniad

Yn mis Chwefror 2000 cyhoeddwyd: *“Report of the Tribunal of the Inquiry into the abuse of children in care in the former county council areas of Gwynedd and Clwyd since 1974, Lost in Care”*¹. Yn ystod yr ymchwiliad hwnnw, roedd y cadeirydd, Syr Ronald Waterhouse, wedi dod i'r casgliad bod y bobl ifanc a oedd wedi cwyno am y gamdriniaeth roedden nhw wedi ei dioddef yn cael eu hannog i beidio â gwneud hynny, a bod eu cwynion yn cael eu mygu. Doedd eu lleisiau ddim yn cael eu clywed. Argymhelliad cyntaf yr adroddiad oedd penodi Comisiynydd Plant Annibynnol i Gymru er mwyn gwrandao ar blant a phobl ifanc, gweithredu fel eiriolwr a chymryd camau ar eu rhan. Daeth Cymru yn wlad gyntaf y DU i benodi Comisiynydd Plant yn 2001.

Un mlynedd ar ddeg yn ddiweddarach mae llawer wedi gwella ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal. Mae plant a phobl ifanc yn fwy diogel, bu cynnydd yn y ddealltwriaeth fod llais plant yn hanfodol i arfer da, a bod gan bob plentyn sy'n derbyn gofal hawl i eiriolwr. Ond gyda niferoedd cynyddol o blant yn dechrau derbyn gofal, mae'n bwysig bod y gwelliannau a welwyd yn ystod y 10 mlynedd diwethaf yn cael eu cynnal a'u datblygu ymhellach.

Yn ystod y degawd diwethaf, mae nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal wedi cynyddu'n sylweddol, 44%. Gall eu profiad o'r system ofal fod yn drawmatig i rai plant a phobl ifanc, ac mae'n brofiad sy'n gofyn bod ganddyn nhw gymorth ac arweiniad cadarnhaol ar hyd eu cyfnod yn y system. Mae'r cymorth hwnnw yr un mor bwysig iddyn nhw wrth baratoi i adael gofal, yn enwedig yn achos y bobl ifanc hynny sy'n gadael y system ofal er mwyn byw'n annibynnol, yn hytrach na dychwelyd at eu teuluoedd.

Mae fy Swyddfa yn dod i gysylltiad rheolaidd â phlant a phobl ifanc sydd mewn gofal neu sydd wedi bod mewn gofal, naill ai trwy'r achosion unigol rydyn yn eu trafod neu trwy'r ymweliadau, y cyfarfodydd, y fforymau a'r cynadleddau amrywiol yr ydyn ni i gyd yn eu mynychu fel rhan o'n gwaith.

Mae'r gwaith rydyn yn ei wneud gyda phlant a phobl ifanc yn ein galluogi i lunio darlun o'r pryderon maen nhw'n eu mynegi am ystod eang o faterion sy'n effeithio ar eu hawliau a'u lles, ac mae hynny'n fy helpu i ganolbwyntio ar y pethau mae angen eu gwneud i ymateb i'w hanghenion. Un grŵp y mae eu pryderon wedi cael cryn effaith arna i yw'r bobl ifanc sydd wedi siarad am eu profiadau wrth iddyn nhw symud o ofal i fyw'n annibynnol. Dyw pethau ddim bob amser yn digwydd yn hwylus i'r grŵp yma o bobl ifanc, ac mae hynny wedi bwydo mewn i ffocws yr adroddiad yma. Rwyf i am i'w profiadau gael eu deall, ac i'w lleisiau gael eu clywed, fel bod pawb sy'n gyfrifol am gynorthwyo'r bobl ifanc hyn yn gallu adeiladu ar yr arfer da sy'n bodoli er mwyn cynnig gwasanaeth gwell fyth.

Nod y cyhoeddiad yma yw rhoi syniad i'r darllenwyr o sut brofiad yw gadael gofal, a dangos profiadau pobl ifanc sydd yn paratoi i adael gofal ar hyn o bryd, yn ogystal â rhai sydd wedi gadael gofal yn ddiweddar. Mae'n defnyddio gwybodaeth rydyn ni wedi ei chasglu gan y bobl ifanc eu hunain, yn ogystal ag adroddiadau ac ystadegau a gynhyrchwyd gan sefydliadau allweddol eraill.

Er y gall ymddangos bod yr adroddiad yma'n canolbwyntio ar ddiffygion y system bresennol, mae hefyd yn tynnu sylw at arfer da. Rwyf wedi cael fy ngwneud yn ymwybodol o lawer o enghreifftiau o weithwyr proffesiynol ac ymarferwyr yn teithio'r filltir ychwanegol, ac o fentrau lleol sy'n dangos bod awdurdodau lleol yn gwneud ymdrechion sylweddol

i gyflawni eu cyfrifoldebau rhianta corfforaethol. Yn bwysig, mae hefyd yn cynnwys nifer o sylwadau a chasgliadau gydag ystyriaethau arfer i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac eraill eu mabwysiadu. Rwy'n gwbl sicr mai'r hyn rydyn ni i gyd am ei weld yw gwell deuliannau ar gyfer pobl ifanc wrth iddyn nhw adael gofal.

Ochr yn ochr â'r cyhoeddiad hwn, byddwn hefyd yn cynnal lansiad ffurfiol *Fy Nghynllunydd*² – adnodd a grewyd ar gyfer pobl ifanc sy'n paratoi i adael gofal. Nid yw'r holl bobl ifanc sy'n paratoi i adael gofal ledled Cymru yn derbyn yr un cymorth a gwybodaeth am yr hyn y gallan nhw ei hawlio a'r hyn y gallan nhw ei ddisgwyl wrth nesáu at 16 oed. I helpu i nodi dengmlwyddiant fy Swyddfa, penderfynais i gynhyrchu rhywbeth ymarferol gyda phobl ifanc, ar gyfer pobl ifanc, a fyddai yn eu galluogi i gael rhestr wirio o'r cymorth y gallan nhw ei hawlio. Mae copïau o *Fy Nghynllunydd* eisoes wedi cael eu hanfon i bob awdurdod lleol, ac rwy'n gobeithio bod copi bellach yn nwylo pob person ifanc 15 oed a throsodd sydd mewn gofal.

Bwriad y cyhoeddiad hwn a *Fy Nghynllunydd* yw canolbwyntio sylw ar anghenion y grŵp yma o bobl ifanc a'r pethau y dylen nhw eu derbyn, a helpu'r gweithwyr proffesiynol, yr ymarferwyr a'r gofaldwyr sy'n gweithio gyda nhw i roi'r cymorth a'r arweiniad y mae ar y bobl ifanc bregus yma eu hangen i symud yn llwyddiannus o ofal i fyw'n annibynnol.

Roedd pryderon Syr Ronald am oedolion yn methu clywed pobl ifanc mewn gofal yn ddilys pan fynegodd nhw yn 2000. Fy her innau i bawb sy'n gweithio dros bobl ifanc sy'n gadael gofal ac yn gofalu amdany'n nhw yw clywed y negeseuon mae pobl ifanc yn eu rhoi i ni heddiw yn yr adroddiad yma, a gweithredu ar sail hynny.

Mae gwrandao a gwneud dim yn annerbyniol. Mae gwerth yr adroddiad yma yn dibynnu ar beth fydd yn digwydd nesa.



Keith Towler
Comisiynydd Plant Cymru

¹Waterhouse, Report of the Tribunal of the Inquiry into the abuse of children in care in the former county council areas of Gwynedd and Clwyd since 1974, Lost in Care, (2000)

²Comisiynydd Plant Cymru, Fy Nghynllunydd (2011) www.complantcymru.org.uk/fyngynllunydd

Cefndir Polisi

Yn yr adran hon rydym yn tynnu sylw at hawliau, deddfwriaeth a chanllawiau allweddol sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal er mwyn darparu cyd-destun ar gyfer y sylwebaeth ddiweddarach ar brofiadau'r rhai sy'n gadael gofal. Yn gyntaf ac yn bennaf oll, mae plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn blant a phobl ifanc. Maen nhw i gyd, felly, wedi eu hamddiffyn a'u cynnal gan yr hawliau a gyflwynir yng **Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)**³ – Confensiwn a gadarnhawyd gan Lywodraeth y DU yn 1991. Yn 2011, fe wnaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru gymeradwyo Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru). Mi fydd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r CCUHP o'r 1 Mai 2012.

Mae Erthygl 9 yn CCUHP yn cydnabod bod rhaid gwahanu plant a phobl ifanc oddi wrth eu rhieni weithiau: *"Children should not be separated from their parents unless it is for their own good, for example if a parent is mistreating or neglecting a child. Children whose parents have separated have the right to stay in contact with both parents unless this might hurt the child"*. Mae Erthygl 20 yn nodi bod rhaid sicrhau bod plant na all eu teuluoedd eu hunain ofalu amdanynt yn derbyn gofal priodol, gan bobl sy'n parchu eu crefydd, eu diwylliant a'u hiaith, tra bod Erthygl 3 yn sicrhau y dylai'r holl sefydliadau dan sylw weithio tuag at yr hyn sydd orau i bob plentyn.

Er ei fod yn bosib bod yr amgylchiadau oedd yn gofyn bod y plentyn neu'r person ifanc yn cael ei dderbyn i ofal wedi ymyrryd â rhai o'i hawliau, mae rheidrwydd ar y rhai sydd yn awr yn gyfrifol am eu gofal i sicrhau eu bod nhw'n gallu ymarfer yr holl hawliau yma. Mae cyfrifoldebau Rhianta Corfforaethol yn estyn ar draws holl wasanaethau awdurdodau lleol, ond maent yn arbennig o berthnasol i gynghorwyr,

gweithwyr cymdeithasol, gofalwyr maeth a gweithwyr cyswllt preswyl mewn awdurdodau lleol.

Yn ôl Erthygl 25 CCUHP, dylai sefyllfa plant sy'n derbyn gofal gan eu hawdurdod lleol gael ei hadolygu'n rheolaidd. Dylai plant a phobl ifanc chwarae rhan yn eu hadolygiadau ac mae Erthygl 12 CCUHP yn pwysleisio bod gan blant yr hawl i ddweud beth maen nhw'n meddwl ddylai ddigwydd pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau amdanyn nhw ac i gael eu barn wedi'i hystyried. Er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus, mae Erthygl 13 yn nodi bod gan blant yr hawl i dderbyn a rhannu gwybodaeth, cyhyd ag nad yw'r wybodaeth yn niweidiol iddyn nhw nac i eraill.

Mae CCUHP yn darparu fframwaith hawliau clir a adlewyrchir yn **Neddf Plant 1989**⁴, a roddodd ddyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr i ofalu am y plant hynny oedd yn methu byw gyda'u teuluoedd bellach. Deddf Plant 1989 sy'n darparu'r fframwaith cyfreithiol cyffredinol ar gyfer pobl ifanc sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal.

Newidiodd **Deddf Plant (yn gadael gofal) 2000**⁵ y darpariaethau gadael gofal yn adran 24 o Ddeddf Plant 1989, gyda'r bwriad o wella cyfleoedd bywyd pobl ifanc sy'n byw yng ngofal yr awdurdod lleol ac yn gadael y gofal hwnnw. Y prif nodau yw:

1. Gohirio rhyddhau pobl ifanc o ofal nes eu bod wedi cael eu paratoi ac yn barod i adael;
2. Gwellu'r gwaith asesu, paratoi a chynllunio ar gyfer gadael gofal;
3. Darparu gwell cymorth personol i bobl ifanc ar ôl gadael gofal;
4. Gwellu'r trefniadau ariannol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal.⁶

⁴ Deddf Plant 1989

⁵ Deddf Plant (yn gadael gofal) 2000

⁶ Llywodraeth Cynulliad Cymru, Canllawiau ar Ddeddf Plant yn Gadael Gofal (2001)

³ Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (1989) www.childcomwales.org.uk/en/rights/

Er bod CCUHP yn berthnasol i blant o dan 18, estynnodd Deddf Plant (yn gadael gofal) 2000 ddyletswyddau awdurdodau lleol i bobl ifanc sydd wedi bod yn derbyn gofal ar ôl cyrraedd yr oedran hwnnw. Rhywun sy'n gadael gofal, yn ôl ystyr Deddf Plant (yn gadael gofal) 2000 yw person ifanc rhwng 16 a 21 oed sy'n gadael (neu sydd wedi gadael) y system ofal ar ôl treulio o leiaf 3 mis (ers bod yn 14 oed) yng ngofal yr awdurdod lleol. Mae'r Ddeddf yn gofyn bod yr awdurdod lleol cartref yn asesu ac yn ymateb i anghenion cefnogi pedwar categori gwahanol o bobl ifanc:

Pobl ifanc gymwys

- Rhwng 16 ac 17 oed
- Rhwng eu pen-blwydd yn 14 ac ar ôl eu pen-blwydd yn 16, wedi derbyn gofal am 13 wythnos o leiaf, neu am gyfnodau sydd, o'u cyfuno, yn 13 wythnos, oni bai bod hynny'n ofal seibiant wedi ei gynllunio
- Yn dal i dderbyn gofal

Pobl ifanc berthnasol

- 16 neu 17 oed
- Wedi gadael gofal
- Ond yn blentyn cymwys cyn gadael gofal
- Mae hyn hefyd yn cynnwys rhai sydd yn cael eu cadw yn y system cyfiawnder troseddol, neu sydd yn yr ysbyty

Pobl ifanc a fu gynt yn berthnasol

- 18-21 oed
- Wedi bod yn blentyn perthnasol neu
- Wedi derbyn gofal wrth gyrraedd 18 oed, ac yn blentyn cymwys cyn hynny
- Os ydych yn dal i gael help gydag addysg neu hyfforddiant ar ôl cyrraedd 21 oed, rydych yn dal yn blentyn a fu gynt yn berthnasol tan ddiwedd eich addysg/rhaglen hyfforddi, hyd yn oed os byddwch dros 21 wrth orffen

Pobl ifanc dros 16 sy'n gymwys

- 16-21 oed (neu 24 os ydynt mewn addysg/hyfforddiant)
- Wedi derbyn gofal yn 16 oed, ond ddim bellach yn derbyn gofal na llety
- Mae hyn yn eich cynnwys chi os ydych yn gadael gofal ar ôl mis Hydref 2001, ond dydych chi ddim yn cael eich cyfrif yn blentyn cymwys
- Os ydych yn destun Gorchymyn Gwarcheidwaeth Arbennig, ac roeddech yn derbyn gofal gan y gwasanaethau cymdeithasol yn union cyn llunio'r gorchymyn

Gall pobl ifanc sy'n gadael gofal hawlio amrywiaeth o gymorth wedi'i ddiffinio'n glir sydd wedi'i lunio i'w helpu i symud o brofiad cwmpasol derbyn gofal i fyw'n annibynnol yn y gymuned ehangach. Mae Deddf Plant (yn gadael gofal) 2000 yn diffinio'r cymorth ychwanegol mae rhaid i awdurdod lleol ei ddarparu pan fo pobl ifanc yn gadael gofal ac yn dechrau byw'n annibynnol. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar weithredu'r Ddeddf yn 2001, a gyhoeddwyd dan y teitl **Canllawiau ar Ddeddf Plant yn Gadael Gofal 2001**⁷.

Crynhwir prif ddarpariaethau'r Ddeddf yn y canllawiau hynny:

- bod dyletswydd ar yr awdurdod lleol cyfrifol i asesu a diwallu anghenion gofal a chymorth plant cymwys, perthnasol a rhai a fu gynt yn berthnasol;
- bod dyletswydd ar yr awdurdod lleol cyfrifol i gadw mewn cysylltiad â phawb sy'n gadael gofal sy'n gymwys ar gyfer y trefniadau newydd;
- rhaid bod gan bob plentyn cymwys, perthnasol, a rhai a fu gynt yn berthnasol Gynllun Llwybr;
- rhaid bod gan bob plentyn cymwys, perthnasol, a rhai a fu gynt yn berthnasol Ymgynghorydd Personol;
- rhaid i'r awdurdod lleol cyfrifol helpu rhai mewn addysg uwch sy'n gadael gofal gyda llety yn ystod y gwyliau os bydd angen;

- rhaid i'r awdurdod lleol cyfrifol gynorthwyo plentyn a fu gynt yn berthnasol gyda chostau cysylltiedig â chyflogaeth, i'r graddau y mae hynny'n angenrheidiol ar gyfer ei (l)les;
- rhaid i'r awdurdod lleol cyfrifol gynorthwyo gyda chostau addysg a hyfforddiant hyd at ddiwedd y rhaglen y cytunwyd arni;
- rhaid i'r awdurdod lleol cyfrifol helpu plentyn a fu gynt yn berthnasol i'r graddau y mae hynny'n angenrheidiol ar gyfer ei (l)les, naill ai yn ymarferol, neu, o dan amgylchiadau eithriadol, ag arian parod.

Mae Deddf Plant (yn gadael gofal) 2000 hefyd yn gofyn bod awdurdodau lleol yn sicrhau bod cynllun llwybr yn ei le erbyn pen-blwydd y person ifanc yn 16. Mae'r cynllun hwn yn allweddol ar gyfer y broses o gynllunio a manylu ar y gefnogaeth y bydd ei hangen ar y person ifanc wrth symud at annibyniaeth, a dylai fanylu ar sut yr ymatebir i ddyheadau ac anghenion y person ifanc yn y meysydd canlynol: addysg a hyfforddiant, cyflogaeth, iechyd, llety, cymorth personol, teulu a pherthnasoedd cymdeithasol, sgiliau ymarferol ac eraill, cymorth ariannol a chynlluniau wrth gefn. **Yn ôl Rheoliadau Plant (yn gadael gofal) (Cymru) 2001**⁸ dylai cynllun llwybr gael ei adolygu o leiaf bob 6 mis.

⁷ Llywodraeth Cymru, Canllawiau ar Ddeddf Plant yn Gadael Gofal (2001) www.wales.gov.uk/topics/childreynyoungpeople/publications/childrenleavingcareact?lang=en

⁸ Rheoliadau Plant (yn gadael gofal) (Cymru) 2001

Ymhellach, mae **Deddf Plant (yn gadael gofal) 2000** yn nodi y dylid penodi ymgynghorydd personol ar gyfer pawb sy'n gadael gofal hyd at 21 oed i gynnig help, cyngor ymarferol a chefnogaeth ac i helpu i wireddu'r cynllun llwybr. Pwysleisiodd dyfarniad Munby yn **J v Cyngor Bwrdeistref Siroel Caerffili (2005)**⁹ y dylai'r ymgynghorydd personol fod yn rhywun heblaw gweithiwr cymdeithasol y person ifanc.

Yn 2007 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau **Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell**¹⁰, a oedd yn nodi'r trefniadau a'r swyddogaethau mae rhaid i bartneriaid statudol ymgymryd â hwy wrth gyflawni eu dyletswyddau i gydweithredu ag awdurdodau lleol ynghylch trefniadau ar gyfer lleoliadau, iechyd ac addysg plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Nod gor-redol y darpariaethau yw sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud er lles pennaf y plentyn, bod lleoliadau yn agos at eu cartref, lle bynnag y bo modd, a bod gwasanaethau'n cael eu cydlynu rhwng asiantaethau a'u cyflenwi gan bobl allweddol. Diffinnir partneriaid statudol yn **Neddf Plant 2004**¹¹ ac maent yn cynnwys gwasanaethau plant yng Nghymru, awdurdodau'r heddlu, byrddau iechyd lleol, a thimau troseddi ieuencid.

Newidiodd Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008¹² rai o ofynion adran 23 yn Neddf Plant 1989 er mwyn estyn cyngor a chymorth ymgynghorydd personol hyd at 25 oed ar gyfer pobl ifanc oedd yn dal i dderbyn addysg a hyfforddiant. Dylid cynnig cyngor a chymorth i bawb sy'n gadael gofal hyd at 21 oed, a hyd at 25 os ydynt mewn addysg a hyfforddiant. Dylid nodi nad yw holl newidiadau allweddol y ddeddf yng nghyswllt plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal wedi cychwyn yng Nghymru.

Rhan o rôl swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yw monitro a galw'r llywodraeth i gyfrif am wireddu hawliau plant. Mae hyn yn cynnwys adrodd i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Pwyllgor y CU) bob pum mlynedd, a gwnaeth hynny ddiwethaf yn 2008. Ar yr un pryd bu Llywodraeth y DU hefyd yn sefyll gerbron Pwyllgor y CU i ateb cwestiynau am hawliau plant yn y DU. Ym mis Hydref 2008, cyhoeddodd Pwyllgor y CU adroddiad ar ei ganfyddiadau, gan ddefnyddio ei **Sylwadau Terfynol**¹³ i gyflwyno 124 o argymhellion i'r llywodraeth y dylid eu rhoi ar waith i amddiffyn hawliau plant yn y DU.

Gwnaeth **Adroddiad Comisiynydd Plant y DU i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn**¹⁴ a Sylwadau Terfynol 2008, fel ei gilydd, argymhellion ynghylch cyfranogiad plant wrth wneud penderfyniadau, a darparu cymorth ac eiriolaeth ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hyn. Bu Pwyllgor y CU hefyd yn argymhell rhaglenni hyfforddiant ac addysg i baratoi plant ar gyfer bywyd oedolyn, a mynegodd ei bryderon nad oedd digon o fuddsoddi yn y staff a'r cyfleusterau i gefnogi plant sy'n derbyn gofal.

Yn ei hymateb i Sylwadau Terfynol 2008, **Gwneud Pethau'n Iawn 2009**¹⁵, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei chynlluniau ar gyfer ymateb i bryderon y pwyllgor. Un o flaenoriaethau'r cynllun gweithredu yw cyflenwi canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y plant a'r teuluoedd mwyaf bregus, gan gydnabod bod llawer o blant a phobl ifanc agored i niwed yn debygol o fod angen cymorth ychwanegol i gyrchu cefnogaeth a gwasanaethau. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y bydd y model newydd ar gyfer cyflenwi eiriolaeth i blant a phobl ifanc yng Nghymru o gymorth i gau'r bwch hwnnw.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn datgan bod nifer o ddatblygiadau eraill ar y gweill i gryfhau trefniadau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau i wella canlyniadau ar gyfer plant agored i niwed a'u teuluoedd, yn cynnwys pwerau newydd i gryfhau trefniadau gofal plant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal trwy weithredu **Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008**.

Ymhellach, mae awydd Llywodraeth Cymru i wella'r cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael i blant sy'n derbyn gofal wedi derbyn cefnogaeth ar lefel leol. Yn 2009 cynhyrnodd Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gyhoeddiad ar y cyd, **"Pe bai'n blentyn i mi Llawlyfr i gynghorwyr ynghylch bod yn rhiant corfforaethol da"**¹⁶ a oedd yn nodi'r canlynol:

Elected Members have a responsibility to ensure that children looked after by the Council are able to thrive, that they are nurtured, supported, educated, listened to and prepared for adult life in the way any good parent would want for their own children.

Yn 2009 cyflwynwyd y cyfeirlyfr hwn i aelodau etholedig lleol a chyflwynwyd y **"Canllawiau Statudol ar Swyddogaeth ac Atebolrwydd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol"**¹⁷ i Gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol i ategu pwysigrwydd eu cyfrifoldebau rhianta corfforaethol i blant mewn gofal. Yn ogystal â'r canllawiau, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cyhoeddi yn Ebrill 2011 adnodd ymarferol yn llawn arfer da i bobl broffesiynol ac Aelodau Etholedig¹⁸, sy'n dangos gwelliannau awdurdodau lleol wrth inddyn nhw ddelio â'u rôl fel rhieni corfforaethol.

⁹ http://www.howardleague.org/fileadmin/howard_league/user/pdf/AJ_Final_Judgment_approved.pdf

¹⁰ Llywodraeth Cynulliad Cymru, Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell (2007)

¹¹ Deddf Plant 2004

¹² Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008

¹³ Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Concluding Observations United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland" CRC/C/GBR/CO/4, (2008)

¹⁴ Comisiynydd Plant y DU (2008)

www.childcomwales.org.uk/en/publications/

¹⁵ Llywodraeth Cymru, Gwneud Pethau'n Iawn (2009)

¹⁶ Llywodraeth Cynulliad Cymru a CILLC, "Pe bai'n blentyn i mi Llawlyfr i gynghorwyr ynghylch bod yn rhiant corfforaethol da i blant mewn gofal ac i'r rhai sy'n gadael gofal" (2009)

¹⁷ Llywodraeth Cynulliad Cymru, "Canllawiau Statudol ar Swyddogaeth ac Atebolrwydd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol" (2009)

¹⁸ SSIA (2011)

www.ssiacymru.org.uk/indep.cfm?keyword=corporate+parenting&go=&articleid=2991&articleaction=sitesearchresults

Beth Wnaethon Ni

Wrth gynhyrchu'r cyhoeddiad hwn ac adnodd **Fy Nghynllunydd**¹⁹ ar gyfer pobl ifanc, fe wnaethom ni gynnal ymchwil gyda bron 120 o blant a phobl ifanc oedd mewn gofal maeth, gofal preswyl, neu a oedd wedi gadael gofal. Y nod oedd archwilio'r materion mae pobl ifanc yn eu hwynebu wrth ddechrau cynllunio ar gyfer gadael gofal a byw'n annibynnol, a chanfod tystiolaeth o arfer da. Cynhaliwyd yr ymchwil yma rhwng Gorffennaf 2010 a Mawrth 2011. Fe wnaethon ni gwrdd â chyfanswm o 11 o grwpiau o bobl ifanc ar draws Cymru, a hefyd â phedwar grŵp o ofalwyr maeth.

Aethom ati i gasglu barn hefyd, trwy gyfarfodydd a sgysiau ffôn, gan weithwyr proffesiynol ac ymarferwyr ledled Cymru sy'n ymarfer gyda phlant sy'n derbyn gofal, yn cynnwys swyddogion cwynion, darparwyr eiriolaeth, nyrs plant sy'n derbyn gofal, gweithwyr cyswllt preswyl, timau plant sy'n derbyn gofal a thimau gadael gofal. Fe wnaethom ni gwrdd â gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill, yn cynnwys swyddogion o Lywodraeth Cymru, aelodau etholedig, Penaethiaid Gwasanaethau Plant, cynrychiolydd o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Swyddfa Archwilio Cymru.

Ar ben hynny comisiynwyd Rhwydwaith Maethu Cymru – sefydliad sy'n darparu cyfleoedd dysgu a datblygu ar gyfer gofalwyr maeth a gwasanaethau maethu – i gyflawni peth ymchwil benodol gyda phlant hŷn sy'n derbyn ac yn gadael gofal ar y profiadau maen nhw'n eu hwynebu wrth adael gofal a symud i fyw'n annibynnol.

Cynhaliodd y Rhwydwaith Maethu eu hymchwil rhwng Rhagfyr 2010 a Mawrth 2011, a chwrdd â 6 grŵp o bobl ifanc. Roedd yr ymgynghori â grwpiau yn cynnwys mynychu fforymau sefydledig a dod â phobl ifanc at ei gilydd ar gyfer sesiynau penodol. Cynhaliwyd cyfweiliadau ffôn gan y Rhwydwaith Maethu gyda rhai unigolion, gan ddefnyddio cwestiynau cyfweld lled-strwythuredig. Yn y lle cyntaf, cysylltwyd â'r bobl ifanc i weld a oedden nhw'n barod i gymryd rhan, ac yna cynigiwyd sesiwn frifffio ar y prosiect iddyn nhw cyn trefnu i gynnal y cyfweiliad. Roedd yr holl sesiynau'n cynnwys casglu adborth gan bobl ifanc am eu profiadau o'r broses bontio, yn ogystal â nodi beth fyddai'n cynnal person ifanc ar y daith at annibyniaeth.

Hefyd yn y cyhoeddiad hwn amlygir barn a phrofiadau plant a phobl ifanc mewn gofal ac wrth adael gofal a rannwyd gyda'r Comisiynydd yn ystod y tair blynedd diwethaf. Buom hefyd yn adolygu achosion perthnasol o'n gwasanaeth cyngor a chefnogaeth yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Fe wnaethom ni edrych ar sampl o wyth pecyn gwybodaeth i blant sy'n derbyn gofal (pecynnau PDG) o bob rhan o Gymru i weld a oedd yr holl wybodaeth berthnasol (yn cynnwys sut mae cael gafael ar eiriolaeth, sut mae gwneud cwyn, gwybodaeth am ymwelwyr annibynnol, ymgynghorwyr personol, athrawon dynodedig a chynlluniau llwybr) yn cael ei darparu i'r plant a'r bobl ifanc.

Ar ben hynny, fe wnaethon ni gysylltu â'r adrannau gwasanaethau cymdeithasol ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol i holi am eu darpariaeth o ran ymwelwyr annibynnol.

Nodwyd pump maes allweddol gan y bobl ifanc y buon ni'n gweithio gyda nhw fel y pynciau mwyaf perthnasol i'w bywydau. Bydd y penodau sy'n dilyn yn edrych ar bob pwnc yn ei dro.

¹⁹ <http://www.childcomwales.org.uk/en/my-planner/>

Gwasanaethau Cymdeithasol

Rhai ffeithiau

- *Dengys y ffigurau diweddaraf fod 5,162 o blant a phobl ifanc yn derbyn gofal yng Nghymru ar 31 Mawrth 2010²⁰.*
- *Dengys yr ystadegau diweddaraf fod 195 o bobl ifanc wedi gadael gofal yng Nghymru yn y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2010, naill ai i fyw mewn llefy gyda chymorth neu i fyw'n annibynnol²¹.*
- *Er gwaethaf gwariant cynyddol mae'r canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, er eu bod yn gwella, yn dal yn gymharol wael.*
- *Mae gorchymyn gofal yn dod i ben yn awtomatig pan fydd person ifanc sy'n derbyn gofal yn cyrraedd 18 oed. Fodd bynnag, mae rhaid i'r Gwasanaethau Cymdeithasol barhau i gynnig help iddyn nhw, er enghraifft i gael hyd i rywle i fyw, nes eu bod nhw'n 21 oed (neu 24 os ydyn nhw mewn addysg neu hyfforddiant).*

Mae'r adran ganlynol yn manylu ar yr amrywiol adnoddau a chymorth y dylai pob adran gwasanaethau cymdeithasol eu darparu ar gyfer pob person ifanc sy'n gadael gofal.

²⁰ Llywodraeth Cynulliad Cymru, Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc Cymru (2011)

²¹ Statistics for Wales, Episodes finishing for looked after children, by reason for finishing, year ending 31 March 2010, <http://www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer/tableView.aspx?ReportId=24426>

Gweithwyr Cymdeithasol

Mae'r berthynas rhwng y person ifanc sy'n gadael gofal a'u gweithiwr cymdeithasol yn hanfodol i sicrhau bod y person ifanc yn derbyn cymorth ac arweiniad priodol wrth bontio o ofal i annibyniaeth. Mae'n hanfodol bod gan y gweithiwr cymdeithasol y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth i ddarparu gwybodaeth i'r person ifanc am lety symud ymlaen ac opsiynau tai, cyflogaeth a hyfforddiant, budd-daliadau a sgiliau byw'n annibynnol. Nhw sy'n gyfrifol am sicrhau bod cynllun llwybr y person ifanc yn cael ei gyflawni. Roedd gweithiwr cymdeithasol wedi bod gan bob un o'r bobl ifanc y buon ni'n siarad â nhw, ond roedd eu profiad a'u barn ynghylch y berthynas yn amrywiol iawn.

Roedd yn galonogol clywed bod rhai pobl ifanc yn gallu disgrifio perthnasoedd cadarnhaol iawn:

"Maen nhw yno pan fydda i angen, ac maen nhw'n dod allan i weld fi os bydda i angen unrhyw beth."

Disgrifiodd un person ifanc sut byddai'r gweithiwr cymdeithasol yn dod i'w gweld nhw pan oedden nhw'n methu mynd i'r ysgol oherwydd salwch, ac yn dod â chylchgronau iddyn nhw ddarllen. Cofiai person ifanc arall am adeg pan oedd ei weithiwr cymdeithasol wedi ymweld ag e dros y penwythnos oherwydd ei fod yn sâl ac wedi symud i fyw'n annibynnol yn ddiweddar.

Roedd hefyd rai enghreifftiau o weithwyr cymdeithasol yn cefnogi cyswllt â theuluoedd gwaed. Eglurodd un person ifanc sut roedd wedi cael ei wahanu oddi wrth ei frodyr a'i chwiorydd wrth fynd i ofal, ond bod ei weithiwr cymdeithasol wedi ei gefnogi i gadw mewn cysylltiad â'r plant iau.

Gwaetha'r modd, doedd yr holl bobl ifanc y buon ni'n siarad â nhw ddim wedi cael cefnogaeth mor gadarnhaol. Roedd rhai o'r profiadau mwy negyddol yn cynnwys arsylwadau am arfer proffesiynol gwael, gan gynnwys bod heb fawr ddim cyswllt â'r gweithiwr cymdeithasol:

"Os ydych chi'n rhywun sy'n bwrw mlaen gyda pheithau, fyddwch chi byth yn gweld eich gweithiwr cymdeithasol."

"Ddim yno pan rydych chi angen nhw, ac yno pan dydych chi ddim"

Buon nhw'n sôn hefyd am bryderon bod eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu hanwybyddu:

"Dwi'n teimlo bod nhw ddim yn gwranddo. Maen nhw'n clywed chi, ond dydyn nhw ddim yn gwranddo"

neu eu bod yn cael eu siomi oherwydd bod gweithwyr cymdeithasol ddim yn cadw eu haddewidion:

"maen nhw'n ysgrifennu pethau lawr a byth yn gwneud nhw"

neu bod gweithwyr cymdeithasol ddim yn rhoi gwybodaeth i'r person ifanc am beth oedd yn digwydd iddyn nhw:

"Fe wnaeth gweithwyr cymdeithasol stopio gweithio gyda fi heb esbonio pam"

Mae'n bwysig bod modd dibynnu ar y gweithiwr cymdeithasol i weithredu er lles pennaf y person ifanc y maen nhw'n gweithio gydag ef/gyda hi bob amser, pa bwysau arall bynnag maen nhw'n ei wynebu. Rhai o'r rhwystredigaethau cyffredin y clywsom ni amdanyn nhw oedd esgus cefnogi'r person ifanc, a pheidio â chyflawni camau y cytunwyd arnyn nhw gyda'r person ifanc, neu fethu clywed yn iawn beth mae person ifanc yn ei ddweud wrthyn nhw.

Mae'n ymddangos mai'r prif reswm pam mae pobl ifanc yn mynegi anfodlonrwydd ar eu gweithiwr cymdeithasol yw'r diffyg amser sy'n cael ei dreulio gyda'r person ifanc unigol, wedi ei gyfuno â diffyg dealltwriaeth o wir anghenion a dymuniadau'r person ifanc. Bydden ni'n awgrymu ei fod yn debygol bod cysylltiad rhwng y ddau beth yma. Os nad yw gweithwyr cymdeithasol yn treulio digon o amser i ddod i nabod y bobl ifanc maen nhw'n gweithio gyda nhw, sut gallan nhw gynrychioli eu lles pennaf yn iawn?

Roedd nifer o sylwadau eraill negyddol sy'n awgrymu y gall ffactorau eraill effeithio ar safon y berthynas gyda'r gweithiwr cymdeithasol. Yn arbennig, roedd nifer o gyfeiriadau at ddiffyg cyswllt rheolaidd gyda'r un gweithiwr cymdeithasol:

"Erbyn i chi ddod yn gyfarwydd â gweithiwr cymdeithasol, maen nhw'n paratoi i adael"

"Ddim yn cael cyfle i nabod nhw."

"Fe ges i 6 gweithiwr cymdeithasol mewn 3 blynedd."

Roedd yn aneglur a oedd y rhesymau am y sylwadau yma yn gysylltiedig ag anawsterau parhaus o ran recriwtio a chadw mewn gwasanaethau penodol, neu'n adlewyrchu problem fwy cyffredinol. Yr hyn oedd yn arwyddocaol oedd pwysigrwydd perthynas dda gyda'u gweithiwr cymdeithasol i bobl ifanc. Roedd y gweithiwr cymdeithasol yn cael ei weld fel ffigur pwerus, allweddol ar gyfer cyfrannu at benderfyniadau pwysig ynghylch bywyd person ifanc, hyd yn oed lle'r oedd y berthynas yn wael. Esboniodd un person ifanc yn uniongyrchol wrth y Comisiynydd:

"Mae gan weithwyr cymdeithasol lawer i'w wneud, a weithiau nid fi sydd ar ben eu rhestr."

Er bod pobl ifanc o bosib yn cydnabod yr anawsterau ymarferol y gall gweithwyr cymdeithasol eu hwynebu, ac yn cydymdeimlo â'u trafferthion mewn rhai achosion, nid yw hynny'n esgusodi'r ffaith o gwbl mai profiad y bobl ifanc hynny yw bod y gweithiwr cymdeithasol yn ffigur pwerus, ond pell i ffwrdd.

Mater arall a godwyd gan y bobl ifanc fel rhywbeth oedd yn effeithio ar safon eu perthynas gyda'u gweithiwr cymdeithasol oedd amllder ac amseru'r cyswllt â nhw. Soniodd llawer o'r bobl ifanc y buon ni'n siarad â nhw am gyswllt bob chwe mis, ac er bod rhai yn teimlo bod hynny'n ddigon, teimlai eraill y dylai ddigwydd yn amlach. Roedd pobl ifanc hefyd yn beirniadu faint o amser roedd rhaid aros i weld eu gweithiwr cymdeithasol os oedd angen cwrdd y tu allan i apwyntiadau oedd wedi eu trefnu ymlaen llaw:

"Fwy na thebyg, fyddai ddim yn gallu dod allan am 3 wythnos. Dylai fod yn gyflymach."

Er bod llawer yn teimlo y bydden nhw'n gallu cysylltu â'u gweithiwr cymdeithasol petai angen, mynegwyd amheuaeth ynghylch a fyddai'r gweithiwr cymdeithasol yn gallu ymateb a'u gweld nhw pan oedden nhw eisiau. Er bod disgwyliadau pobl ifanc yn anymarferol o uchel, o bosib, o ran cael mynediad at weithiwr cymdeithasol ar unwaith, nid yw'n ymddangos yn afresymol i wasanaethau ddarparu cyswllt o fewn yr un wythnos yn y mwyafrif o achosion.

Nid dim ond y bobl ifanc ddywedodd wrthyn ni y bydden nhw'n hoffi gallu treulio mwy o amser gyda'u gweithiwr cymdeithasol. Buon ni hefyd yn siarad â gweithwyr cymdeithasol o nifer o wahanol awdurdodau lleol a oedd yn awyddus i ddweud wrthyn ni gymaint y bydden nhw'n croesawu cyfle i allu treulio mwy o amser yn siarad â'r bobl ifanc roedden nhw'n gweithio gyda nhw. Roedden nhw'n teimlo bod gormod o'u hamser yn cael ei dreulio wrth gyfrifiadur yn rhoi data i mewn i ryw gronfa neu'i gilydd. Mae'r farn honno'n cyfateb i ganfyddiadau diweddar y **Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru**, a adroddodd ym mis Tachwedd 2010:

"We heard much from social workers and other frontline staff and service users about the bureaucratic burden in their work and the extent to which process and time spent at the computer was getting in the way of productive time with, and for clients."²²

²² Independent Commission on Social Services in Wales (2008) <http://www.icssw.org/?lang=en>

Ymddangosai fod cyswllt â gweithwyr cymdeithasol yn broblem arbennig ar gyfer pobl ifanc oedd wedi eu lleoli y tu allan i ardal yr awdurdod lleol, weithiau filltiroedd lawer o'u "cartref". Yn ystod ein hymchwil, buon ni'n siarad ag ambell berson ifanc oedd wedi cael eu lleoli y tu allan i'r sir. Yn achos mwyafrif y bobl ifanc hynny, ychydig iawn o gyswllt roedden nhw wedi ei gael â gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill yr oedden nhw wedi dod yn gyfarwydd â nhw o'u hawdurdod cartref. Anaml iawn y caen nhw unrhyw gefnogaeth gan yr awdurdod lleol yr oedden nhw'n byw ynddo. O ganlyniad, argraff y bobl ifanc yma oedd eu bod wedi cael eu dal rhwng dau awdurdod oedd ddim yn siarad â'i gilydd nac yn gweithio gyda'i gilydd, ac o ganlyniad roedden nhw'n teimlo'n ynysig a heb gefnogaeth:

"Maen nhw'n anghofio mai ar y bobl ifanc mae hynny'n effeithio."

"Rydych chi'n teimlo fel rhif achos, nid person ifanc."

Mae gan brif swyddogion, reolwyr gwaith cymdeithasol a Swyddogion Adolygu Annibynnol (IROs) rôl i'w chwarae i sicrhau bod arfer da gweithwyr cymdeithasol yn cael ei gyflawni, ac rydyn ni'n meddwl bod ganddynt oll rôl yn y gwaith o wella profiadau'r rhai sy'n gadael gofal wrth iddyn nhw symud o ofal i annibyniaeth. Mae penodi Swyddog Adolygu Annibynnol yn gyfreithiol ofynnol o dan Adran 118 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002. Rôl y swyddogion hynny yw sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau, a hefyd, yn bwysig, sicrhau bod dymuniadau a theimladau'r plentyn neu'r person ifanc yn derbyn ystyriaeth lawn.

Canfu'r Adolygiad Cenedlaethol o Wasanaethau Swyddogion Adolygu Annibynnol 2008-2009²²:

"For the most part, IROs perform their role of monitoring social work processes very well and have contributed to the improvements in performance around looked after children. However they are not always consistent in following up concerns about quality and in ensuring that the aspects of a child's care plan are implemented in a timely manner. In particular there can sometimes be a tendency to discuss a recommendation a number of times at a review without resolution."

Dylai prif swyddogion a rheolwyr timau gwaith cymdeithasol sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant priodol, yn cael eu cefnogi, ac yn cael eu galw i gyfrif am eu harfer, a dylen nhw sicrhau bod gwasanaeth o safon yn cael ei ddarparu ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal. Rhaid i reolwyr weithio i sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn treulio amser o ansawdd gyda'r bobl ifanc, heb deimlo eu bod yn boddi o dan bwysau llwyth achosion, gwaith papur, a thasgau eraill.

Dylai rheolwyr gwaith cymdeithasol ac IROs sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn gallu dangos eu bod wedi ymgynghori'n briodol â phobl ifanc, trafod gyda nhw ac esbonio penderfyniadau sy'n cael eu gwneud am eu dyfodol, a'u bod wedi cwblhau asesiadau a chynlluniau gofal o safon uchel.

Mae'n amlwg bod y bobl ifanc y buon ni'n siarad â nhw wedi cael profiadau cymysg iawn o ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, un peth sy'n eglur yw ei fod yn bwysig, wrth baratoi i adael gofal, bod y person ifanc wedi gallu meithrin perthynas dda gyda'r gweithiwr cymdeithasol ar sail dealltwriaeth a hefyd, yn hanfodol, ymddiriedaeth. Yn yr un modd, dylai gweithwyr cymdeithasol deimlo y bydd eu rheolwyr yn eu cefnogi i dreulio amser o ansawdd gyda'r bobl ifanc, heb gael eu llethu gan bwysau cyrraedd targedau, gwaith papur a thasgau gweinyddol.

²³ AGGCC, Adolygiad Cenedlaethol o Wasanaethau Swyddogion Adolygu Annibynnol 2008-2009 (2009) http://wales.gov.uk/docs/cssiw/report/iro_rpt0809/091013iroen.pdf

Ymgynghorydd personol

Gweithiwr proffesiynol arall allweddol sy'n rhoi cymorth a chefnogaeth i bobl ifanc wrth iddyn nhw baratoi i adael gofal yw'r ymgynghorydd personol. Cyflwynwyd rôl yr ymgynghorydd personol gan **Ddeddf Plant (yn gadael gofal) 2000** i gefnogi'r rhai sy'n gadael gofal. Dylai pob person ifanc wybod pwy yw eu hymgyngorydd personol erbyn cyrraedd 16 oed. Rôl yr ymgynghorydd personol yw:

- *Rhoi cyngor a chefnogaeth;*
- *Llunio'r cynllun llwybr, a sicrhau ei fod yn cael ei weithredu;*
- *Cadw mewn cysylltiad â'r person ifanc;*
- *Cydlynu gwasanaethau, gan gysylltu ag asiantaethau eraill.*

Gwelwyd yn eglur o ddyfarniad yr uchel lys yn achos **J v Bwrdeistref Sirol Caerffili 2005 (dyfarniad Munby)** y dylai'r ymgynghorydd personol fod yn rhywun annibynnol, a gallu herio'r awdurdod lleol, petai angen, os nad yw'r cynllun llwybr yn cael ei ddilyn neu os nad yw anghenion yn cael eu diwallu. Rhan o rôl yr ymgynghorydd personol yw cynrychioli'r person ifanc yn ymwneud y person ifanc â'r awdurdod lleol. Fodd bynnag,

nid yw rôl yr ymgynghorydd personol bob amser yn eglur i bobl ifanc sydd mewn gofal:

"Dyw e ddim yn eglur o'ch gweithiwr cymdeithasol neu eich gweithiwr cymorth pwy ydyn nhw na beth maen nhw'n mynd i wneud."

Doedd rhai pobl ifanc y buon ni'n siarad â nhw ddim hyd yn oed yn ymwybodol o fodolaeth ymgynghorwyr personol:

"Pwy neu beth yw ymgynghorydd personol – doeddwn i byth yn gwybod eu bod nhw'n bodoli, beth maen nhw'n ei wneud – oes angen un arna i, oes gen i un?"

Dywedodd rhai o'r bobl ifanc y buon ni'n siarad â nhw ei fod yn help mawr pan fyddai eu gweithiwr cymdeithasol a'u hymgyngorydd personol yn eistedd lawr gyda nhw ac yn esbonio'u gwahanol rolau a phwysigrwydd y cynllun llwybr. Er y gallai hyn ymddangos yn enghraifft amlwg o arfer da, mae llawer o'r sylwadau a gawson ni gan y rhai sy'n gadael gofal yn awgrymu nad yw hyn yn digwydd mewn llawer o achosion.

Doedd rhai pobl ifanc ddim yn derbyn y cyswllt roedden nhw'n ei ddisgwyl

gan eu hymgyngorydd personol. Er enghraifft, soniodd un am weld ei hymgyngorydd personol ym mis Awst, ond heb gael cyfarfod arall tan fis Chwefror y flwyddyn wedyn. Soniodd person ifanc arall am weld yr ymgynghorydd personol bob wythnos yn ystod y mis cyntaf, ond am fethu â chysylltu wedyn. Doedd gan lawer o'r bobl ifanc dros 18 y buon ni'n siarad â nhw ddim cyswllt â'u hymgyngorydd personol bellach:

"Cawson ni help ar y dechrau, ond wedyn fe ddiffannodd y cyfan."

Yn achos y bobl ifanc a gafodd brofiad cadarnhaol gyda'u hymgyngorydd personol, y peth roedden nhw'n ei gael yn fwyaf buddiol oedd yr help gyda threfnu cyllideb a thasgau ymarferol fel siopa bwyd. Roedd tystiolaeth bod y rhai oedd mewn cyswllt rheolaidd yn gwerthfawrogi agwedd rhai o'u hymgyngorwyr personol:

"Dydw nhw ddim yn dweud wrthy ch sut mae byw eich bywyd. Maen nhw'n dweud wrthy ch beth mae angen i chi wybod ac yn rhoi cyngor i chi"

"Rydw ni'n mynd allan am fwyd, ac yn siarad am unrhyw beth rydw i angen. Mae wedi bod yn brofiad positif i fi."

Mewn un awdurdod lleol fe glywsom ni fod yr ymgynghorwyr personol yn trefnu cyfarfodydd rheolaidd i'r bobl ifanc ddod at ei gilydd i ddyysgu rhai sgiliau ar gyfer byw'n annibynnol ac i ofyn am unrhyw help neu gyngor roedd arny nhw eu hangen. Roedd y bobl ifanc yma hefyd yn derbyn llythyr newyddion oedd yn cynnwys llawer o wybodaeth ddefnyddiol ac ymarferol.

Fel y berthynas gyda'r gweithiwr cymdeithasol, mae pobl ifanc i weld yn gosod gwerth ar y gallu i ddatblygu cyswllt dibynadwy, rheolaidd â'u hymgyngorydd personol. Mae'r esiampl gawson ni o'r gweithiwr cymdeithasol a'r ymgynghorydd personol yn eistedd lawr gyda'r person ifanc ar yr un pryd ac yn esbonio eu gwahanol rolau yn un yr hoffon ni ei gweld yn cael ei hefelychu yn achos pob person ifanc sy'n derbyn gofal ym mhob awdurdod lleol. Mae'n bwysig bod pobl ifanc yn derbyn gwybodaeth y gallan nhw ei deall a'i defnyddio.

Cynllun Llwybr

Rydyn ni eisoes wedi sôn mai un o dyletswyddau allweddol yr ymgynghorydd personol yw sicrhau bod y cynllun llwybr yn cael ei weithredu. Mae'r cynllun llwybr yn ddogfen bwysig, y mae'n rhaid ei pharatoi'n ofalus iawn. Mae'r cynllun llwybr yn nodi pa gymorth fydd yn cael ei roi i'r person ifanc wrth adael gofal. Dylai pob person ifanc gael amser a chefnogaeth i roi mewnbwn i'w cynllun. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, mae'n hollbwysig bod pobl ifanc yn derbyn cyngor priodol ac yn deall pwysigrwydd gwneud cynlluniau manwl ar gyfer eu dyfodol yn eu cynllun llwybr. Mae hyn yn hanfodol os yw'r person ifanc am fynd ymlaen i addysg uwch, ond dylai gwmpasu pob agwedd ar fywyd y person ifanc wrth baratoi ar gyfer annibyniaeth. Gwaetha'r modd, dywedodd llawer o'r bobl ifanc y buon ni'n siarad â nhw nad oedden nhw erioed wedi gweld eu cynllun, ac felly nad oedden nhw wedi bod yn rhan o'i lunio. Yn **Fy Nghynllunydd** rydyn ni'n argymhell, os nad yw pobl ifanc yn siŵr beth sydd yn eu cynllun llwybr, y dylen nhw ofyn am gopi, er mwyn gwneud yn siŵr, er enghraifft, bod unrhyw gynlluniau sydd ganddyn nhw i fynd i brifysgol neu goleg wedi eu cynnwys.

Anghysondeb arall oedd ar ba oedran y byddai person ifanc yn cychwyn ar y cynllun llwybr, a'r cymorth y bydden nhw'n ei dderbyn i gwblhau'r cynllun. Soniodd un person ifanc am weithiwr cymdeithasol yn dod â chynllun gwag iddyn nhw pan oedden nhw'n 15½ ac yn dweud wrthyn nhw am ei gwblhau cyn yr ymweliad nesaf. Adeg yr ymweliad nesaf, buon nhw'n trafod cyfraniadau'r person ifanc. Soniodd person ifanc arall am ei weithiwr cymdeithasol yn dod â'i ymgynghorydd personol i gwrdd ag e am y tro cyntaf ychydig wedi iddo gyrraedd 16 oed. Fe wnaethon nhw drafod pwrpas y cynllun a gadael copi gwag gydag e i'w lenwi. Fodd bynnag, fe gwrddon ni â phobl ifanc eraill oedd dros 16, a rhai oedd yn 17, hyd yn oed, oedd yn methu cofio gweld copi o'u cynllun erioed. Roedd un person ifanc 18 oed a gafodd sgwrs gyda ni yn bwriadu mynd i'r brifysgol ond heb glywed am gynllun llwybr erioed pan fuon ni'n holi.

Y peth oedd yn achosi'r pryder mwyaf i ni oedd bod nifer o bobl ifanc yn dweud, er bod ganddyn nhw gynllun llwybr, eu bod nhw heb gael eu cynnwys wrth ei lunio, bod y cynllun ddim wedi cael ei drafod gyda nhw, a'u bod nhw ddim yn ymwybodol o'r cynnwys. Cawson ni hefyd enghreifftiau lle'r oedd yr enw anghywir neu'r wybodaeth anghywir wedi cael ei nodi ar gynllun llwybr y person ifanc, oedd yn golygu eu bod nhw ddim yn ei weld fel rhywbeth personol, ond yn hytrach fel darn arall o bapur. Dyma rai o sylwadau'r bobl ifanc:

"Roeddwn i wastod yn meddwl mai dim ond gwaith papur oedd e. Dyw e ddim yn hwylus iawn i bobl ifanc. Mae angen gwneud e'n haws ei ddefnyddio, nid dim ond llwyth dibwrpas o bapur."

"Maen nhw isie gallu dweud rydyn ni wedi cyflawni X, a gallu dweud wrth y llywodraeth rydyn ni wedi gwneud hyn, hyn a hyn."

Mae angen mynd i'r afael â'r dryswch a'r diffyg diddordeb sydd i'w weld yng nghydestun cynlluniau llwybr ymhlith pobl ifanc. Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod yr holl ymgynghorwyr personol yn gweithio'n agos gyda phobl ifanc sy'n derbyn gofal i sicrhau eu bod nhw'n deall pwrpas eu cynllun llwybr ac yn cyfrannu ato. Carem hefyd adleisio pwynt pwysig arall a wnaed gan y rhai sy'n gadael gofal, sef bod:

"angen adolygu'r cynllun yn rheolaidd wrth i bethau newid, a gallai fod angen "cynllun wrth gefn" arnoch chi".

Eiriolaeth

Gall darparu eiriolaeth hefyd fod yn ffynhonnell werthfawr o gymorth i bobl ifanc sy'n gadael gofal, ac mae dyletswydd statudol²⁴ ar awdurdod lleol i'w darparu i unrhyw berson ifanc sy'n derbyn gofal neu i unrhyw un sy'n gadael gofal. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno **Safonau Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth**²⁵, sy'n nodi y dylai eiriolaeth fod ar gael i'r rhai sy'n gadael gofal hyd at 21 oed. Yn ôl y safonau hyn, eiriolaeth yw:

"giving children and young people the power to speak for themselves or speaking on their behalf, advocates also offer information, advice and support..."

"Advocates should work to make sure that children and young people in care can understand what is happening to them, can make their views known and, where possible, exercise choice when decisions about them are being made."

Gall pobl ifanc sydd ar fin symud o ofal i fyw'n annibynnol wneud defnydd da o eiriolaeth ar adeg pan fo penderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud am eu bywydau. Maen nhw'n debygol o gael budd os bydd rhywun ar gael i godi llais ar eu rhan a chyflwyno eu safbwynt yn eglur. Fodd bynnag, mewn Fforwm Gadael Gofal yr aeth y Comisiynydd iddo, dim ond 3 allan o ryw 30 o bobl ifanc oedd hyd yn oed wedi clywed am eiriolaeth. Dylai pawb sy'n gadael gofal gael eu hannog i ddefnyddio'r ddarpariaeth eiriolaeth y gallan nhw ei hawlio, er mwyn eu helpu i sicrhau bod eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu clywed.

Dyweddodd nifer o bobl ifanc y buon ni'n siarad â nhw wrthyn ni faint maen nhw'n gwerthfawrogi cymorth eiriolwr pan fydd angen siarad â gweithwyr proffesiynol yn y gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaethau iechyd neu'r ysgol. Pan wnaethon ni ofyn am gwynion, dywedodd y mwyafrif o bobl ifanc y bydden nhw'n siarad â'u gweithiwr cymdeithasol, ond, fel yr amlygodd un person ifanc, mae'n anodd cwyno wrthyn nhw os yw'r gwyn am eu gwasanaeth, achos:

"Maen nhw yn rhan ohono fe."

Gall eiriolwr da wneud gwahaniaeth pwysig i fywyd rhywun sydd mewn gofal. Soniodd un person ifanc am enghraifft pan oedd hi wedi cwyno wrth y gweithiwr cymdeithasol a rheolwr fim y gweithiwr cymdeithasol am ei lleoliad, a theimlo bod neb yn gwranddo. Cysylltodd â'i gwasanaeth eiriolaeth lleol, ac fe fuon nhw'n ei chefnogi.

Pan oedden ni'n ymchwilio ar gyfer **Fy Nghynllun** roedd y bobl ifanc y buon ni'n siarad â nhw at ei gilydd yn gwybod mwy na llawer o bobl ifanc sy'n derbyn gofal am yr hyn y gallan nhw ei hawlio. Ond dim ond rhai ohonyn nhw oedd yn gwybod am eiriolaeth, a doedd y rhai oedd ddim yn gwybod ddim yn ymwybodol y gallen nhw hawlio cefnogaeth o'r fath.

Rydyn ni wedi cael nifer o achosion trwy ein gwasanaeth cyngor a chefnogaeth lle mae'n amlwg bod y rhai sy'n gadael gofal heb fedru cyrchu'r gwasanaeth eiriolaeth yr oedd ganddyn nhw hawl iddo, ac yn aml doedden nhw ddim yn ymwybodol bod gwasanaeth o'r fath yn bodoli. Yn gynharach eleni, cysylltodd merch oedd yn gadael gofal â ni oherwydd ei bod am gael eiriolwr i helpu i ddatrys anhawster nad oedd hi wedi gallu cael ateb iddo gyda'i gweithiwr cymdeithasol. Doedd hi ddim yn ymwybodol pa wasanaethau eiriolaeth oedd ar gael yn lleol, a doedd hi ddim wedi cael

cynnig eiriolwr gan yr awdurdod lleol ar hyd ei chyfnod mewn gofal. O gysylltu â'r awdurdod lleol, clywsom ni nad oedd ganddyn nhw wasanaeth eiriolaeth penodol, ond eu bod yn defnyddio trefniant pwrcau yn y fan a'r lle i roi'r gefnogaeth yma. Fodd bynnag, doedd gweithwyr cymdeithasol, yn cynnwys rheolwyr, o fewn yr awdurdod ddim yn gwybod manylion y ddarpariaeth, a doedd hi ddim yn ymddangos eu bod nhw'n gwybod beth oedd eiriolaeth. Gofynnwyd i'r person ifanc roi gwybodaeth amhriodol iddyn nhw er mwyn cael mynediad i'r gwasanaeth. Ar ôl i ni ymwneud â'r achos, rhoddwyd eiriolwr i'r person ifanc.

Mae'n destun pryder nad yw pobl ifanc o reidrwydd yn ymwybodol o'u hawl i hyn nac yn gallu cael mynediad iddo oherwydd pwysau ar adnoddau. Mae rhai gweithwyr proffesiynol y buon ni'n siarad â nhw wedi tynnu sylw at y ffaith eu bod nhw'n teimlo bod faint o adnoddau sydd ar gael yn dylanwadu ar sut caiff eiriolaeth ei hyrwyddo ymhlith plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, a bod hynny'n effeithio'n uniongyrchol ar eu cyfleoedd i gael mynediad i wasanaeth.

²⁴ Deddf Plant 1989 (adran 26A)

²⁵ Llywodraeth Cynulliad Cymru, Safonau Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Plant (2003) <http://wales.gov.uk/caec/publications/childrenandyoungpeople/advocacy/advocacystandardsen.pdf?lang=en>

Ymwelydd Annibynnol

Rhywun sy'n ymweld â'r rhai sy'n byw mewn gofal maeth neu gartrefi preswyl, os nad ydynt wedi cael fawr ddim cyswllt â'u teulu ers dros flwyddyn, yn dod yn ffrind iddyn nhw, ac yn eu cynghori yw Ymwelydd Annibynnol. Rydyn ni wedi penderfynu peidio â chynnwys unrhyw gyfeiriad at ymwelwyr annibynnol yn **Fy Nghynllun**, oherwydd ein bod ni'n gwybod y byddai plant a phobl ifanc yn cael trafferth cyrchu'r gwasanaeth – er bod dyletswydd ar awdurdodau lleol²⁶ i ddarparu un o dan rai amgylchiadau. Roedd pump o'r wyth pecyn PDG y buon ni'n edrych arny'n nhw yn cynnwys gwybodaeth am ymwelwyr annibynnol, ac fe gawson ni mai ychydig iawn o'r bobl ifanc y buon ni'n siarad â nhw oedd yn gwybod unrhyw beth am y gwasanaeth yma. Ac eto, mae'n ymddangos yn amlwg y byddai pobl ifanc sydd ar fin bod yn annibynnol yn elwa o gael oedolyn sy'n ffrind ac yn fentor, y gallen nhw rannu eu diddordebau ac archwilio eu hopsiynau at y dyfodol gydag ef/gyda hi; rhywun a fyddai'n annibynnol ar y llu o weithwyr proffesiynol y gallai'r person ifanc fod mewn cysylltiad â nhw.

Mae cyhoeddiad diweddar gan Tros Gynnal ar eu *Cynlluniau Gwirfoddolwyr Rolau Cadarnhaol*²⁷ yn darparu model ar gyfer "paru gwirfoddolwyr yn llwyddiannus â phlant a phobl ifanc sydd mewn gofal – gan ddarparu perthynas sefydlog dymor hir gydag oedolyn".

Dyweddod un o'r bobl ifanc a ddyfynnwyd yn yr adroddiad hwnnw:

"Ers cael ymwelydd annibynnol, rydw i wedi cael ffrind gwych y bydda i'n ei nabod am oes"

Fe wnaethon ni gynnal arolwg ffôn o wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol i ganfod eu dealltwriaeth o ymwelwyr annibynnol a lefel eu darpariaeth. Roedd angen esbonio wrth lawer o'r gweithwyr cymdeithasol y buon ni'n siarad â nhw beth oedd ymwelydd annibynnol. Cawson ni hefyd mai ychydig iawn o blant a phobl ifanc oedd yn derbyn gofal oedd yn gallu cael mynediad at ymwelydd annibynnol. Yng ngoleuni hyn, byddwn ni'n cwestiynu lefel y flaenoriaeth a roddir i'r gwasanaeth hwn, er gwaethaf y manteision posib i'r rhai sy'n gadael gofal sydd heb oedolion i'w cefnogi ac i roi esiampl o ymddygiad iddyn nhw.

Mae adroddiad Tros Gynnal yn rhoi enghreifftiau o effaith bosib presenoldeb ymwelydd annibynnol ar fywydau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Yn wir, gall perthynas sefydledig gydag oedolyn annibynnol sy'n bresenoldeb cyson yn eu bywydau fod yn amhrisiadwy, yn enwedig wrth iddyn nhw gychwyn ar y broses bontio at fyw'n annibynnol a'r tu hwnt. Mae'n drueni mawr nad yw'r gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu'n fwy cyffredinol. Er nad oes rhaid i blant a phobl ifanc dderbyn ymwelydd annibynnol, dylen nhw gael cynnig un os ydyn nhw'n gymwys ac os byddai hynny o fudd iddyn nhw. Ychydig iawn o gyswllt oedd gan lawer o'r bobl ifanc y buon ni'n siarad â nhw â'u teuluoedd, ac mae hynny'n golygu ei fod yn anodd deall pam mae cyn lleied o bobl ifanc sy'n derbyn gofal, ac yn wir cyn lleied o weithwyr cymdeithasol, i weld yn ymwybodol o'r gwasanaeth hwn. Rhaid i awdurdodau lleol wneud mwy i sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn ymwybodol o'r gwasanaeth ymweliadau annibynnol a sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc sy'n gymwys i'w dderbyn yn cael dewis dod i gysylltiad â'r gwasanaeth.

²⁶ Deddf Plant 1989 (adran 23ZB)

²⁷ Tros Gynnal, Positive Roles Volunteer Schemes, http://www.trosgynnal.org.uk/document/Page/TROS_GYNNAL%20POS%20ROLES%20BKLT.PDF

Addysg

Rhai ffeithiau

👉 *Dengys ystadegau Llywodraeth Cymru ar gyfer plant 16 oed a throsodd oedd â chymwysterau TGAU neu GNVQ a beidiodd â derbyn gofal yn y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2010²⁸, fod:*

- 35% heb unrhyw gymhwyster
- gan 65% o leiaf un TGAU neu gymhwyster galwedigaethol
- gan 30% o leiaf 5 TGAU (gradd A* i G, ond mai gan 9% yn unig yr oedd graddau A* i C, o gymharu â 63% o bobl ifanc 15 oed nad ydynt yn y system ofal²⁹).

👉 *Yn achos plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, dengys data 2008/09 mai canran y plant oedd yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig o ran y Dangosydd Pynciau Craidd oedd 44% yn CA2 a 25% yn CA3. Y ffigurau cyfatebol ar gyfer pob disgybl oedd 77% yn CA2 a 61% yn CA3 (mae rhai plant sy'n derbyn gofal yn cael anawsterau y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth gymharu)³⁰.*

👉 *Rhaid i bob plentyn a pherson ifanc sy'n derbyn gofal gael Cynllun Addysg Personol – fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Plant 2004, Adran 52.*

👉 *Mae Adran 20 o Ddeddf Plant a Phobl ifanc 2008 yn gofyn bod pob ysgol a gynhelir yn meddu ar aelod penodedig o staff i fod yn gyfrifol am gyflawniad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.*

Bydd yr adran ganlynol yn manylu ar yr amrywiol adnoddau a chymorth y dylai gwasanaethau addysg eu darparu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n gadael gofal.

²⁸ StatsWales, Children who ceased to be looked after aged 16 or over with GCSE or GNVQ qualifications, year ending 31 March (2010) <http://www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer/tableView.aspx?ReportId=24551>

²⁹ StatsWales, Educational achievements of pupils aged 15 by year (gender, LEA), <http://www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer/tableView.aspx?ReportId=11293>

³⁰ Llywodraeth Cynulliad Cymru, Monitor Plant a Phobl Ifanc

Cymorth yn yr ysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

Mae eu blynyddoedd olaf yn yr ysgol a'r symudiad ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth yn ffactor allweddol ym mywyd pob person ifanc, ond mae'n arbennig o bwysig yn achos pobl ifanc sy'n derbyn gofal. Yn achos y bobl ifanc hyn, mae'n debygol y bydd eu profiad o symud o'u cartref i ofal wedi effeithio ar eu haddysg, fel y bydd yr amgylchiadau a arweiniodd at eu derbyn i'r system ofal. Mae cymorth a dealltwriaeth effeithiol, da yn yr ysgol yn hanfodol ar gyfer y grŵp yma o blant a phobl ifanc.

Mae profiad y bobl ifanc oedd wedi gadael gofal y buon ni'n cwrdd â nhw yn awgrymu, er bod cymorth ar gael ar gyfer plant sydd mewn gofal, bod ansawdd a darpariaeth cymorth o'r fath yn amrywio, ac mae gwybodaeth a dealltwriaeth o'r anawsterau personol y gall plant mewn gofal fod yn eu hwynebu yn aml yn fylchog.

Un o'r rolau allweddol yn yr ysgol a ddylai gefnogi plant yn y system ofal yw'r athrawon dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru Tuag at **Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell**³¹ yn amlinellu rôlau a chyfrifoldebau athrawon dynodedig plant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol a'r cydlynnydd

addysg plant sy'n derbyn gofal, sy'n gyfrifol am sicrhau bod anghenion plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn derbyn sylw y tu mewn a'r tu allan i ardal yr awdurdod lleol.

Fodd bynnag, pan fuon ni'n siarad â phobl ifanc a'u gofalwyr maeth am y staff dynodedig, clywsom ni mai bylchog oedd yr wybodaeth bod rhywun ym mhob ysgol i helpu a chefnogi pobl ifanc oedd yn derbyn gofal. Fe wnaethon ni ofyn i'r bobl ifanc am eu gallu i gael mynediad i staff dynodedig. Doedd rhai ddim yn gwybod pwy oedd y bobl yna, er y gallai hynny fod oherwydd diffyg eglurder ynghylch rôl y person yn hytrach na bod heb gyswllt â nhw. Dylai gwybodaeth am y cymorth yma yn yr ysgol fod ar gael ym mhecynnau awdurdodau lleol i blant sy'n derbyn gofal, ond roedd wedi ei chynnwys mewn rhai yn unig o'r pecynnau y buon ni'n edrych arny'n nhw.

Cyfaddefodd un o'r athrawon dynodedig y buon ni'n siarad â hi nad oedd hi'n ymwybodol faint o blant oedd yn derbyn gofal yn ei hysgol. Mae'n anodd deall sut gall rhywun ddarparu cymorth priodol i'r bobl ifanc yma os nad ydyn nhw'n gwybod am eu bodolaeth. Dylai ysgolion a Gwasanaethau Cymdeithasol fod yn fwy rhagweithiol wrth sicrhau bod athrawon dynodedig yn ymwybodol o bob person

ifanc yn yr ysgol sy'n derbyn gofal, a bod yr athrawon hynny yn eu tro yn sicrhau bod pob person ifanc sy'n derbyn gofal yn gwybod am eu rôl hwythau a sut mae cysylltu â nhw.

Mae rôl athrawon dynodedig plant sy'n derbyn gofal a chydlynnydd addysg plant sy'n derbyn gofal yn dod yn arbennig o bwysig pan fydd pobl ifanc yn symud tuag at fyw'n annibynnol. Gall pobl ifanc elwa o drafodaethau cynnar am eu diddordebau a'u dewis o bynciau, fel bod modd iddyn nhw benderfynu beth hoffen nhw wneud pan fyddan nhw'n hŷn. Mae cyngor a chymorth gyrfaoedd yn allweddol ym mywyd unrhyw berson ifanc ar yr adeg hon.

Rhaid i ysgolion hefyd feddwl yn llawer mwy gofalus am sut maen nhw'n rheoli rôl athro dynodedig ac effaith bosib y rôl honno ar fywydau plant sy'n derbyn gofal yn eu hysgolion. Disgrifiodd un grŵp o bobl ifanc y buon ni'n cwrdd â nhw sut roedd yr athrawes ddynodedig yn eu hysgol nhw hefyd yn athrawes anghenion arbennig:

"Roedd hi'n arfer galw'r plant oedd mewn gofal maeth i mewn"

"Roedd yn ofnadw. Roedd gas gen i fynd mewn yna"

Roedd y bobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu hamlygu'n gyhoeddus fel rhai oedd yn derbyn gofal, a hefyd bod awgrym y gallai fod ganddyn nhw anghenion addysgol arbennig. Rydyn ni'n tybio mai effaith anfwriadol oedd hynny, ond fe gafodd effaith ar y bobl ifanc yn bendant.

Roedd nifer o gyfeiriadau hefyd at dynnu pobl ifanc allan o ddosbarthiadau i fynd i gyfarfodydd adolygu:

"Dwi'n casáu cyfarfodydd yn yr ysgol"

"Mae fy athro daearyddiaeth yn dweud o flaen pawb.....mae'n hala fi'n grac bod nhw'n dweud o flaen y dosbarth cyfan"

"Dyweddod fy athro (enw), mae dy weithiwr cymdeithasol yma ar gyfer eich cyfarfod pwysig"

"Mae pawb isie gwbod ble chi di bod."

³¹ Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/docs/caecd/publications/110317stableen.pdf>

Er bod rhai pobl ifanc yn gyfforddus gyda phobl yn gwybod eu bod nhw'n derbyn gofal, dyw eraill ddim. Dylai ysgolion geisio canfod barn y plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal y maen nhw'n eu haddysgu, a darparu'n unol â hynny. Ddylai'r plentyn neu'r person ifanc ddim gorfod rheoli'r sefyllfa eu hunan, fel y dywedodd un person ifanc wrthyn ni ei bod hi wedi gwneud. Dywedodd hi ei bod hi ddim yn mynd i'r cyfarfodydd adolygu, achos dyw hi ddim eisiau cael ei galw allan o'r gwersi, felly mae hi'n gofyn i'w gofalwr maeth fynd a dweud wrthi beth ddigwyddodd.

Roedd eraill yn gwrthwynebu'r ffaith eu bod nhw'n cael eu tynnu allan o wersi i gwrdd â gweithwyr proffesiynol:

"Ddylen nhw ddim gwneud hwnna, gwneud e yn yr ysgol, achos chi i fod yn dysgu, on'dych chi. Fydden nhw ddim yn gwneud e yn yr egwyl, achos maen nhw'n cael egwyl hefyd."

Os ydyn ni'n ceisio pwysleisio pwysigrwydd addysg dda i bobl ifanc, mae'n ymddangos braidd yn chwithig eu tynnu nhw allan o ddosbarthiadau i fynd i gyfarfodydd. Dylai gweithwyr cymdeithasol ac ysgolion gydweithio i gynllunio cyfarfodydd ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal y tu allan i'r oriau ysgol craidd.

Roedd anghytundeb ymhlith y bobl ifanc y buon ni'n siarad â nhw o ran a ddylai staff heblaw'r athrawon dynodedig wybod pa blant oedd yn derbyn gofal. Roedd rhai pobl ifanc yn teimlo bod dweud wrth eu hathrawon eu bod nhw'n derbyn gofal yn gwneud pethau'n haws, ond roedd eraill yn bendant eu bod nhw ddim eisiau i bobl yn yr ysgol wybod:

"Dwi'n hoffi mynd i'r ysgol, dianc o'u tŷ nhw, a bod gyda fy ffrindiau. Pam mae rhaid i'r ysgol gyfan wybod?"

Fodd bynnag, roedd rhai'n teimlo ei fod yn bwysig i rai athrawon wybod, gan y gallai helpu i esbonio ymddygiad gwael neu ymatebion i rai sefyllfaoedd. Gallai rhai ysgolion wneud mwy i fod yn sensitif i anghenion plant sydd mewn gofal mewn rhai sefyllfaoedd. Mae gan Lywodraeth Cymru ganllawiau ar gyfer hyn, er enghraifft, mae cwricwlwm ABCh Cyfnod Allweddol 2 Cymru³² yn cydnabod bod nifer o wahanol ffurfiau i deuluoedd. Dylai athrawon feddwl yn ofalus am y gwersi y maen nhw'n eu paratoi a'r posibilrwydd y gallai rhai pynciau fod yn anodd i blant sydd mewn gofal. Fel y dywedodd un gofalwr maeth:

"Yn aml dyw plant sydd wedi bod yn derbyn gofal ddim yn gwybod am hanes eu teulu, a gall prosiectau ysgol ar "Fy Nheulu" achosi trallod."

³² Llywodraeth Cymru [http://wales.gov.uk/dcells/publications/curriculum_and_assessment/arevisedcurriculumforwales/personalandsocialeducation/PSE_Framework_WEB_\(E\).pdf?lang=en](http://wales.gov.uk/dcells/publications/curriculum_and_assessment/arevisedcurriculumforwales/personalandsocialeducation/PSE_Framework_WEB_(E).pdf?lang=en)

Ymddangosai fod rhai pobl ifanc am i athrawon ddeall eu bod mewn gofal a'r anawsterau y gallen nhw eu hwynebu o ganlyniad, ond doedden nhw ddim eisiau cael eu trin yn wahanol:

"Unrhyw bryd pan fyddwn i'n ddrwg bydden nhw'n rhoi'r bai ar y ffaith mod i mewn gofal"

Doedd y person ifanc yma ddim yn teimlo mai dyna'r rheswm am y camymddwyn. Roedd yn teimlo bod modd osgoi rhai cosbau disgyblu fel cadw i mewn, a bod hynny'n dylanwadu ar ymddygiad. Disgrifiodd person ifanc arall sut roedd e'n teimlo byddai rhai plant mewn gofal yn camymddwyn oherwydd ymateb yr athrawon iddyn nhw:

"Oherwydd bod chi'n teimlo trueni drostyn nhw, byddan nhw'n whare lan"

Er bod llawer ddim yn croesawu cael eu trin yn wahanol, roedd y mwyafrif yn croesawu derbyn help ychwanegol:

"Rydyn ni'n cael tipyn go lew o help gydag e" [addysg]

"Dwi'n credu bod angen mwy o help ar blant maeth na phlant eraill...achos mae mwy yn mynd ymlaen yn eu bywydau"

Rydyn ni'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid penodol trwy grant RAISE (Codi Cyrhaeddiad a Safonau Unigol mewn Addysg) fel bod modd darparu cymorth addysgol i blant sy'n derbyn gofal, yn enwedig wrth iddyn nhw nesáu at arholiadau hollbwysig yn 16 oed. Clywsom ni am enghreifftiau lle roedd pobl ifanc wedi derbyn gliniaduron, tiwtora, help gyda gwaith cartref gan ofalwyr maeth a'u teuluoedd maethu, a chymorth ariannol i fynd ar deithiau ysgol. Trafododd un person ifanc sut roedd wedi derbyn gwersi ychwanegol y tu allan i oriau ysgol mewn darpariaeth ieuencid leol. Cafodd fod hynny o help mawr gan ei fod wedi bod yn colli tir gyda'i waith ysgol. Gwaetha'r modd, daeth y gwersi i ben wrth iddo baratoi i sefyll ei arholiadau, a chafodd e erioed esboniad clir pam. Serch hynny, pasiodd gyda graddau da, a theimlai na fyddai hynny wedi digwydd petai e heb dderbyn cymorth ychwanegol.

Mae cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal wedi bod yn destun pryder ers amser hir. Er bod cyrhaeddiad wedi gwella'n raddol dros y blynyddoedd, mae llawer i'w wneud o hyd. Mae'r targedau a bennir ar gyfer awdurdodau lleol wedi bod yn isel iawn ac o ganlyniad wedi creu diwylliant o ddisgwyliadau isle. Er bod y targedau isel yma wedi diflannu, mae'n ymddangos bod y diwylliant negatiff dal yn bodoli. Mae hyn wedi cael cryn effaith ar rai o'r bobl ifanc ry' ni wedi cwrrd gan eu bod wedi gollwng eu dyheadau personol³³.

³³ Welsh Government, SDR14 5/2010 adoptions, Outcomes and Placements for Children Looked After by Local Authorities: Year Ending 31 March 2010 (2010)

O'r 503 bobl ifanc 16 mlwydd oed a throsodd a beidiodd â derbyn gofal yn y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2010, fe wnaeth 105 adael heb unrhyw gymhwyster. Dim ond 47 aeth adael gyda 5 neu fwy o TGAU graddau A* i C. Mae'r cyrhaeddiad addysgol yma yn isel o'i gymharu â disgyblion eraill. Rydyn ni felly'n galw ar rieni corfforaethol i wneud mwy i sicrhau fod cefnogaeth addysgiadol effeithiol i blant a phobl ifanc mewn gofal yn flaenoriaeth.

Dylai fod gan bob plentyn sy'n derbyn gofal Gynllun Addysg Personol (CAP) yn yr ysgol. Cynllun sy'n cefnogi plant a phobl ifanc i wneud yn dda yn yr ysgol yw CAP. Dylai nodi cryfderau'r person ifanc a meysydd lle gallai fod angen cymorth ychwanegol. Dylai'r CAP gael ei gychwyn gan y gweithiwr cymdeithasol a'i baratoi mewn partneriaeth â gofalwr y person ifanc, yr athro dynodedig, cydlynedd addysg plant sy'n derbyn gofal a gweithwyr proffesiynol eraill, ond yn fwyaf pwysig oll, gyda'r person ifanc.

Dylai'r CAP fod yn rhan o gynllun gofal y plentyn yn y lle cyntaf, ac yn ddiweddarach, wrth bontio i annibyniaeth, dylai fod yn rhan o'r Cynllun Llwybr. Dylid adolygu CAPiau yn rheolaidd, ochr yn ochr ag adolygiadau plant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, dim ond rhai o'r bobl ifanc y buon ni'n siarad â nhw oedd wedi cael cyfle i gyfrannu at eu CAP eu hun. Mae cynnwys y person ifanc a rhoi cyfle iddo/iddi gyflwyno dyheadau at y dyfodol a'r hyn mae'n rhagweld ddylai gael ei gynnwys yn y CAP yn hanfodol.

Pan wnaethon ni ofyn am adborth o ran barn pobl ifanc am eu CAP, cawson ni sylwadau fel:

"Y daflen gachlyd na," "mae'n ddiflas", "dwi'n ysgrifennu'r un peth bob blwyddyn"

"Dwi wedi clywed amdano fe, ond does gen i ddim syniad ydw i wedi gwneud un"

"Wnes i Google Cynllun Addysg Personol i weld beth oedd e"

"Pan wnaethon ni adolygu fe, roedd pethau doeddwn i ddim wedi gwneud wedi newid"

Roedd rhai yn teimlo ei fod yn nawddoglyd ac yn eu stereoteipio. Roedd yn amlwg bod llawer ddim yn deall pwrpas y CAP. Mae hyn yn destun pryder mawr, gan ei fod yn ymddangos nad yw llawer o'r bobl ifanc yn ymwybodol o gwbl o bwysigrwydd deall y CAP a chyfrannu ato. Os nad yw gweithwyr proffesiynol yn cymryd y broses hon o ddifri ac yn dod i gysylltiad priodol â'r bobl ifanc, sut gallan nhw ddisgwyl iddyn nhw chwarae rhan weithredol i sicrhau bod eu CAP yn ddogfen bwysig? Rydyn ni'n cwestiynu a yw rhai gweithwyr proffesiynol yn gweld y ddogfen hon fel ffurflen arall i'w llenwi yn hytrach nag offeryn gwerthfawr i'w tywys yn eu gwaith gyda phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Addysg a hyfforddiant ôl-16

Buon ni'n trafod gyda'r bobl ifanc pa gymorth roedden nhw wedi ei dderbyn o ran eu paratoi ar gyfer addysg ôl-16. Fel y gellid disgwyl, roedd eu profiadau'n amrywio. Roedd rhai pobl ifanc wedi cael cefnogaeth gan eu gofalmwyr maeth i fynd i ddiwrnodau agored mewn colegau, ac roedd un grŵp o bobl ifanc oedd wedi gadael gofal wedi cael cefnogaeth gan yr awdurdod lleol i dreulio amser mewn prifysgol gyfagos.

Roedd enghreifftiau o ysgolion a cholegau yn rhoi cymorth i gyrchu addysg bellach a hyfforddiant, a disgrifiodd rhai pobl ifanc sut roedd eu lleoliadau coleg wedi eu helpu i gael hyd i waith rhan amser. Dywedodd un awdurdod lleol wrthyn ni sut roedden nhw'n cynnig cyflogaeth a hyfforddiant i'r rhai oedd yn gadael gofal ar ffurf prentisiaeth yn yr awdurdod lleol ei hun.

Fodd bynnag, roedd diffyg eglurder ymysg y bobl ifanc wnaeth gymryd rhan yn y gwaith hwn, ynghylch yr opsiynau a nid oeddynt bob amser yn eglur pwy allau gynnig cefnogaeth iddyn nhw:

"Rydw i eisiau mynd i'r Brifysgol, ond does neb yn dweud wrtha i beth alla i wneud neu pa gymorth gaf fi"

"Fe ddwedson nhw bydden nhw'n cefnogi fi drwy'r Brifysgol, ond dwi'n dal i ddisgwyl y gefnogaeth yna"

"Dydw i ddim yn credu bod gofalmwyr maeth yn gwybod digon i gefnogi pobl ifanc. Naill ai dydyn nhw ddim yn deall digon, neu does dim digon o ots da nhw."

Roedden ni hefyd yn pryderu am sut roedd rhai pobl ifanc yn gweld sut byddai'r opsiynau bydden nhw'n eu dewis ar ôl addysg orfodol yn cael effaith uniongyrchol ar lefel y cymorth bydden nhw'n ei dderbyn gan yr awdurdod lleol. Er enghraifft, cyfeiriwyd at orfod mynd i'r coleg neu aros yn yr ysgol os ydych chi eisiau aros mewn gofal. Dywedodd person ifanc oedd yn gadael gofal wrthyn ni sut byddai'r cymorth gwerthfawr roedd yn ei gael gan ei ymgynghorydd personol yn dod i ben ar ddiwedd ei gwrs coleg. Roedd y ffaith y byddai'n colli'r cymorth yma'n fuan yn achosi llawer iawn o straen a phryder iddo.

Dywedodd rhai pobl ifanc eu bod nhw'n teimlo o dan bwysau i fynd i'r brifysgol:

"Roedd pawb yn benderfynol dylwn i fynd i'r Brifysgol, roedd yn gyrru fi'n wallgo"

Er ei fod yn gadarnhaol bod pobl ifanc yn cael eu hannog i symud ymlaen i addysg uwch, rhaid cofio na fydd yr opsiwn yma'n addas i bob person ifanc. Rhaid i weithwyr cymdeithasol sicrhau bod pob person ifanc yn cael cyfle i drafod beth maen nhw eisiau ar gyfer eu dyfodol.

Roedd pobl ifanc hefyd yn ymwybodol o'r hinsawdd ariannol bresennol, ac yn pryderu amdani, gan gyfeirio at doriadau awdurdodau lleol:

"Rydw i eisiau mynd i'r coleg ac maen nhw wedi bod yn addo pethau i fi, ond go brin bydd hynny'n digwydd nawr"

Er nad oedd tystiolaeth bod pobl ifanc heb dderbyn cymorth gydag addysg yn sgîl toriadau, roedd yn amlwg bod y bobl ifanc yn pryderu ynghylch sut byddai hyn yn effeithio arnyn nhw.

Dyweddod un gofalwr maeth wrthyn ni fod gweithiwr cymdeithasol wedi ei gynghori y byddai'r person ifanc roedd yn gofalu amdano "mewn sefyllfa well ar fudd-daliadau yn hytrach na mynd i'r brifysgol". Achos ynysig, diolch byth, oedd hwn. Fodd bynnag, roedd yn glir iawn am hyn, ac yn dweud: "Mae'r system yn eu gwthio nhw i dderbyn budd-daliadau!" Tynnodd sylw yn gywir at y ffaith bod cymorth ariannol i fynd i brifysgol yn dod o gyllidebau awdurdodau lleol, ond nad oedd taliadau budd-dal yn dreth ar adnoddau lleol.

Teimlai rhai oedd wedi gadael gofal oedd mewn addysg ôl-orfodol eu bod yn derbyn cryn dipyn yn llai o gymorth gan eu gweithiwr cymdeithasol a'u hymgyngorydd personol:

"Os gwelan nhw eich bod chi'n llwyddo, byddwch chi'n llai o flaenoriaeth".

"Os ydych chi'n gwneud yn iawn, fe ddwedan nhw 'gwych, ta ta' a bant â nhw."

Roedden ni'n falch o glywed bod rhai prifysgolion – gan gynnwys holl brifysgolion Cymru – yn mynd ati'n fwriadol i annog y rhai sy'n gadael gofal i gofrestru, ac yn cynnig cryn dipyn o gymorth iddyn nhw ar ôl iddyn nhw ymuno â'r brifysgol. Mae holl Brifysgolion Cymru yn gweithio tuag at Farc Ansawdd Ymddiriedolaeth Buttle ar gyfer Rhai mewn Addysg Uwch sydd wedi Gadael Gofal. Bydd y mwyafrif yn darparu cyfle i gael mentor a mynediad i beth cymorth ariannol, os bydd angen. Yn bwysig, mae llefy ar gael ar hyd y flwyddyn.

Un o'r anawsterau ychwanegol y mae pobl ifanc sy'n pontio o ofal i fyw'n annibynnol yn ei wynebu yng nghyswllt addysg ar ôl oed ysgol yw dryswch ynghylch math a lefel y cymorth y gallan nhw ddisgwyl ei dderbyn. Cawson ni fod sawl fersiwn wahanol o pryd byddai cymorth ar gyfer "plant a fu gynt yn berthnasol" yn dod i ben. Mae Deddf Plant (yn gadael gofal) 2000 yn nodi dyletswyddau awdurdodau lleol:

23C Swyddogaethau sy'n parhau o ran plant a fu gynt yn berthnasol.

- 7) If the former relevant child's pathway plan sets out a programme of education or training which extends beyond his twenty-first birthday:
- (a) the duty set out in subsection (4)(b) continues to subsist for so long as the former relevant child continues to pursue that programme;

Mae hyn yn awgrymu i ni y byddai'r gefnogaeth yn parhau nes bod y cwrs astudio'n dod i ben – beth bynnag oedd oedran y myfyriwr. Fodd bynnag, mae rhai gweithwyr proffesiynol wedi awgrymu y bydd y gefnogaeth yn dod i ben yn 24 oed p'un a yw'r cwrs astudio wedi ei gwblhau neu beidio. Ni fydd hyn yn gwneud fawr ddim gwahaniaeth i'r mwyafrif o bobl ifanc, gan na fydd astudiaethau'n parhau mor hir â hynny ond mewn achosion prin iawn. Fodd bynnag, i'r rhai y mae hyn yn effeithio arnynt, mae'r gwahaniaeth yn bwysig iawn. Mae eraill wedi awgrymu y dylai'r gefnogaeth barhau tan 25 oed.

Teimlai rhai pobl ifanc y gallai fod angen cefnogaeth arnynt nhw gydag addysg hyd at 24 oed, ac o bosib wedi hynny. Trafododd un person ifanc sut hoffai hi wneud cwrs ôl-raddedig a sut cafodd hi wybod ar y cychwyn y byddai hi'n cael ei chefnogi gan yr awdurdod lleol, ond ei bod wedi cael ar ddeall bellach nad yw hynny'n bosib. Cysylltodd person ifanc a oedd wedi gadael gofal â'n gwasanaeth cyngor a chefnogaeth oherwydd bod ei gwrs gradd yn gorffen ar ôl ei ben-blwydd yn 24. Roedd y gwasanaethau cymdeithasol wedi dweud wrth y person ifanc yma na fydden nhw'n talu am ei gwrs gradd cyfan oherwydd ei oedran. Fe wnaethon ni gyflwyno achos i'r awdurdod lleol, a chytunwyd y byddai'r arian yn cael ei ddarparu i'r person ifanc er mwyn iddo allu gorffen ei radd.

Mae angen eglurhad ar frys gan Lywodraeth Cymru ynghylch pryd dylai'r gefnogaeth ar gyfer addysg rhai sy'n gadael gofal ddod i ben. Rhaid safoni arfer awdurdodau lleol wrth ddarparu'r gefnogaeth yma a'r cyngor a roddir i bobl ifanc ar draws Cymru.

Mae cymorth ariannol i bobl ifanc sydd wedi gadael yr ysgol a symud ymlaen i addysg uwch hefyd yn bryder pwysig. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod hyn; yn ddiweddar cyflwynodd ddeddfwriaeth yn y maes. Mae **Rheoliadau Deddf Plant 1989 (Bwrsariaeth Addysg Uwch)(Cymru) 2011**, wedi safoni'r Bwrsariaeth Addysg Uwch. Taliad yw hwnnw gan awdurdodau lleol i rai mewn addysg uwch sydd wedi gadael gofal. Bydd awdurdodau lleol yn awr yn dyfarnu £2,000 i bawb sy'n gadael gofal yn eu hardal sy'n mynd ymlaen i addysg uwch, lle bo hynny'n rhan o'u Cynllun Llwybr.

Er bod nifer o gymhorthion ar gael i bobl ifanc sy'n aros mewn addysg neu hyfforddiant, teimlai'r bobl ifanc y cwrddon ni â nhw fod llai o gymorth ar gyfer y rhai oedd yn penderfynu mynd i weithio. Mae'r rheoliadau cyfredol yn cyfyngu ar gefnogaeth gweithwyr cymdeithasol ac ymgynghorwyr personol ar ôl 21 oed i rai sy'n gadael gofal sydd ddim yn parhau mewn addysg neu hyfforddiant. Ni fydd person ifanc sy'n penderfynu peidio mynd i'r brifysgol ac yn dechrau gweithio yn gallu cyrchu'r gefnogaeth sydd ar gael mewn prifysgol – ac ni fydd chwaith yn derbyn cefnogaeth gan yr awdurdod lleol (ar ôl cyrraedd 21 oed). Dyma beth ddywedodd un person ifanc 22 oed a oedd wedi gadael gofal, gan fod ei gwrs hyfforddi, ac felly ei gymorth gwerthfawr gan ei ymgynghorydd personol, wedi dod i ben:

“Os oes angen cefnogaeth arnoch chi, dylech chi gael hynny – rydw i'n teimlo bod angen cefnogaeth arna i hyd at 25”

Gofynnodd un arall:

“Pam rydych chi'n gwahaniaethu yn fy erbyn i oherwydd mod i'n dewis gweithio?”

Roedd y bobl ifanc y buon ni'n siarad â nhw yn beirniadu'r gwahaniaethau artificial a wnaed yng nghyswllt y gefnogaeth fyddai'n cael ei chynnig iddyn nhw yn ôl oedden nhw mewn addysg neu beidio. Yn achos llawer o bobl ifanc, mae'n bosib na fydden nhw'n dewis parhau ag astudiaethau academaidd ar ôl cyrraedd 16 oed petaen nhw'n cael sicrwydd y gallen nhw aros mewn gofal neu barhau i dderbyn cefnogaeth (ar ôl 21), hyd yn oed petaen nhw'n penderfynu cael swydd.

Rydyn ni'n cwestiynu a yw meini prawf bod mewn addysg neu hyfforddiant o gymorth mawr. Oni ddylai pob person ifanc sy'n gadael gofal allu hawlio help a chefnogaeth – os nad yn ariannol, yna'n sicr cymorth emosiynol ac ymarferol? Mae hyn yn digwydd mewn llawer o deuluoedd heddiw, gyda phobl ifanc yn aros gyda'u rhieni nes eu bod yn eu hugeiniau cynnar neu ganol, nes eu bod yn barod yn ariannol ac yn emosiynol – norm cymdeithasol y dylid ei estyn i'r rhai sy'n gadael gofal.

Mae llawer o bobl ifanc sy'n derbyn gofal yn profi cyfnod niweidiol 'heb fod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant' (NEET), a all gael effaith barhaus ar eu rhagolygon economaidd at y dyfodol³⁴. Rydyn ni'n pryderu, fodd bynnag, yn achos rhai sy'n gadael gofal sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ei fod hefyd yn eithriadol o debygol na fyddan nhw'n derbyn unrhyw gefnogaeth gan yr awdurdod lleol ar ôl cyrraedd 21 oed, gan fod llawer o'r gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal wedi'i chlymu wrth barhau mewn addysg neu hyfforddiant. Gadewir y grŵp yma o bobl ifanc, sy'n eithriadol o fregus, mewn sefyllfa fwy bregus fyth, gan na fydd ganddyn nhw o reidrydd neb i'w cynorthwyo. Rydyn ni'n galw ar awdurdodau lleol, wrth ymarfer eu dyletswyddau fel rhieni corfforaethol, i ddarparu mwy o help a chefnogaeth ymarferol i'r grŵp yma sy'n gadael gofal yn arbennig. Gallai help o'r fath gynnwys gwarantu lle ar gwrs hyfforddi, profiad gwaith yn yr awdurdod lleol neu fusnesau lleol, neu gymorth gyrfaoedd dwys ar lefel un i un.

³⁴ Llywodraeth Cynulliad Cymru, Sgiliau sy'n gweithio i Gymru, strategaeth a chynllun gweithredu sgiliau a chyflogaeth (2008) <http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/081217stfwsstrategyandactionen.pdf>

Mae cefnogi'r rhai sy'n gadael gofal i dderbyn addysg dda a hyfforddiant nid yn unig yn llesol iddyn nhw yn emosïynol, ond hefyd yn gwneud synnwyr yn economaidd. Mewn adroddiad diweddar ar brofiad plant sy'n derbyn gofal "In Loco Parentis", bu Demos, sefydliad ymchwil annibynnol, yn damcaniaethu ynghylch costau dau blentyn gwahanol i'r wladwriaeth:

- 👉 *Gall 'Plentyn A' gostio £20,119.10 i'r wladwriaeth erbyn cyrraedd 30 oed os aiff ymlaen i'r brifysgol a sicrhau swydd i berson graddedig.*
- 👉 *Gall 'Plentyn B' gostio £111,923.99 i'r wladwriaeth os bydd yn profi diweithdra, tangyflogaeth a phroblemau iechyd meddwl.*
- 👉 *Rhwng 16 a 30 oed mae gwahaniaeth o £91,804.89 rhwng costau Plentyn A a Phlentyn B i'r wladwriaeth.*³⁵

Rhaid i rieni corfforaethol ystyried sut gallan nhw wneud yn well. Mae angen i ni sicrhau bod mwy o opsiynau'n parhau ar agor i'r rhai sy'n gadael gofal, a chynnal y cymorth sydd ei angen arnynt os byddan nhw'n dewis peidio â mynd i addysg neu hyfforddiant. Ar yr un pryd, rhaid i ni gefnogi'r rhai sydd yn dymuno parhau â'u haddysg mewn coleg neu brifysgol. Dylai pobl ifanc sy'n gadael gofal gael yr un cyfleoedd â phobl ifanc eraill wrth ddewis llwybr, boed hynny i gyflogaeth, hyfforddiant, addysg uwch neu bellach, ac yn bwysig, dylen nhw gael yr hawl i newid eu meddwl neu gael "bwlch o flwyddyn" fel mae llawer o bobl ifanc eraill yn gwneud.

³⁵ Demos, In Loco Parentis <http://www.demos.co.uk/publications/inlocoparentis>

Tai

Y ffeithiau

- *Mae dyletswyddau ar awdurdodau lleol i ddarparu llety ar gyfer y rhai yn eu gofal o dan Ddeddf Plant (yn gadael gofal) 2000. Mae'r rhain yn dibynnu ar oedran.*
- *Yn G v London Borough of Southwark (2009)³⁶, ategodd Tŷ'r Arglwyddi na ellir osgoi dyletswyddau gwasanaethau plant mewn awdurdodau lleol i ddarparu llety ar gyfer plant mewn angen (o dan adran 20 o Ddeddf Plant 1989) trwy gyfeirio'r person ifanc at adran dai'r awdurdod lleol. Dyletswydd yr adran dai (o dan Ran 7 o Ddeddf Tai 1996) yw darparu ar gyfer y bobl ifanc ddigartref hynny na fyddant yn bodloni'r meini prawf ar gyfer llety o dan adran 20 o Ddeddf Plant 1989 yn unig.*
- *Mae astudiaethau wedi dangos bod y rhai sy'n gadael gofal mewn mwy o berygl o fod yn ddigartref yn gymharol fuan wedi gadael gofal³⁷.*
- *Ers Ebrill 2008, mae Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2006³⁸ wedi gwneud y datganiad canlynol:*

7. for the purposes of Part 7 of the 1996 Act and subject to the exceptions contained in article 9, B&B accommodation is not to be regarded as suitable for a person who is in priority need.

³⁶ <http://www.publications.parliament.uk/pa/ld200809/ldjudgmt/jd090520/appg-1.htm>

³⁷ Wade, J. and Dixon, J. (2006) Making a home, finding a job: investigating early housing and employment outcomes for young people leaving care, *Child and Family Social Work*, 11, 3, 199-208 cites Biehal and Wade (1999) and Dixon and Stein (2005)

³⁸ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2006/650/part/3/made>

Adnoddau Tai

Bydd yr adran ganlynol yn manylu ar yr amrywiol adnoddau tai a chefnogaeth y dylid eu darparu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n gadael gofal.

Mae nifer o opsiynau llety y dylid eu hystyried wrth gynllunio ar gyfer paratoi person ifanc i adael gofal. Mae'r rhain yn cynnwys:

- *llety gyda chymorth, lle mae'r sawl sy'n gadael gofal yn byw gyda phobl ifanc eraill, gyda chymorth oedolion i ddysgu a datblygu sgiliau byw'n annibynnol;*
- *newid lleoliadau maeth, lle mae'r sawl sy'n gadael gofal yn parhau i fyw yn y lleoliad maeth, ond yn dechrau talu rhent;*
- *rhentu'n breifat, gan landlordiaid cymeradwy neu gymdeithasau tai;*
- *foyers, sy'n darparu llety wedi ei gysylltu ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth fel arfer;*
- *fflatiau hyfforddi/fflatiau rhagflas;*
- *gwely a brecwast;*
- *llety mewn hostel*

Bydd yr opsiynau'n dibynnu ar beth sydd ar gael yn lleol.

Rydyn ni'n gwbl bendant na ddylid ystyried llety gwely a brecwast a hostelaau ond mewn argyfwng, ac na ddylen nhw byth fod yn rhan o Gynllun Llwybr person ifanc. Y broblem ar gyfer llawer o awdurdodau lleol yw nad oes stoc

digonol o dai addas ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal – o leiaf nid o'r math y gellir eu fforddio ar Fudd-dal Tai. Derbyniodd ein gwasanaeth cyngor a chefnogaeth alwadau gan bobl ifanc sy'n byw mewn llety gwely a brecwast uwchben tafarndai neu mewn gwestai gwely a brecwast y mae canran uchel o'u cwsmeriaid yn oedolion agored i niwed neu mewn perygl. Mae llety o'r fath yn aml mewn ardaloedd lle maen nhw'n teimlo'n annogel ac yn agored i niwed. Mae ein Swyddogion Ymchwiliadau a Chyngor wedi cysylltu ag awdurdodau lleol ar ran y bobl ifanc, ac wedi clywed gan staff awdurdod lleol rhwystredig sy'n ymwybodol o'r polisiau a'r canllawiau ar letya pobl ifanc agored i niwed, ond sy'n eu cael eu hunain mewn sefyllfa lle nad oes stoc tai priodol ar gael.

Mae angen i fwy o awdurdodau lleol feddwl a chynllunio'n greadigol yn achos y mater hwn. Yn y seminar a gynhalion ni gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru disgrifiodd un awdurdod lleol sut roedden nhw'n troi llety lloches ar gyfer yr henoed yn llety ar gyfer y rhai oedd yn gadael gofal. Roedd awdurdod arall yn bwriadu agor canolfan galw heibio ar gyfer pobl ifanc, lle byddai staff Llamau – elusen i'r digartref – a staff gwasanaethau cymdeithasol yn rhoi cyngor ac arweiniad ar broblemau llety. Mae'n amlwg bod angen i adrannau tai a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol gydweithio i gynllunio ar gyfer symudiad pobl ifanc i fyw'n annibynnol, fel bod darpariaeth briodol ar gael iddyn nhw pan ddaw'r amser.

Roedd llawer o'r bobl iau y buon ni'n siarad â nhw yn awyddus iawn i adael gofal maeth yn 16 a chael eu llety eu hunain, ond ychydig ohonyn nhw oedd â syniad clir o sut bydden nhw'n cael cartref na goblygiadau byw'n annibynnol. Roedd ganddyn nhw ddisgwyliadau afrealistig ynghylch byw ar eu pennau eu hunain:

"Bydda i'n cael parti bob nos."

Yn aml doedd dim ystyriaeth na fyddai'r bobl ifanc yn "berchen" ar y tŷ roedden nhw'n byw ynddo (os oedden nhw'n byw'n annibynnol) ac y byddai rhaid iddyn nhw dalu rhent a chadw at reolau eu cytundeb tenantiaeth neu breswyliaeth:

"Bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn prynu tŷ a chelfi i fi"

Fodd bynnag, roedd y rhai hŷn, oedd yn nes at realiti byw'n annibynnol, yn llai sicr mai dyna oedden nhw eisiau, ac roedden nhw'n wynebu'r syniad o fyw'n annibynnol braidd yn bryderus:

"Pam mae rhaid i chi adael gofal pan fyddwch chi yn 18?"

"Dylech chi fynd pan fyddwch chi'n barod, nid pan fydd pobl yn dweud wrthy chi."

"Pan fyddwch chi'n 18 mae rhaid i chi adael eich lleoliad. Rydych chi'n teimlo'n rhyfedd yn y fiwyddyn olaf achos bod chi'n meddwl am orfod symud mas. Mae'n niwsans, rydych chi'n cyrraedd 18 ac maen nhw'n twlu chi mas."

Er nad yw'n pennu sut mae rhaid darparu cartref i rywun sy'n gadael gofal, mae Deddf Plant (yn gadael gofal) 2000 yn awgrymu y byddai'n amhriodol i bobl ifanc 16 ac 17 sy'n gadael gofal fyw yn gwbl annibynnol heb gyswllt na chefnogaeth.

Clywson ni am nifer o amgylchiadau lle'r oedd pobl ifanc oedd yn byw'n annibynnol yn mynd i ddyled heb wybod pwy allai helpu. Ym mhob achos, roedd y rhan fwyaf o'r ddyled yn cronni o ôl-ddyledion rhent. Roedd rhai oedd wedi gadael gofal yn credu bod dim rhaid iddyn nhw dalu rhent, felly roedden nhw'n synnu i gael llythyron yn dweud bod ganddyn nhw ôl-ddyledion. Mae hyn yn awgrymu bod y gwaith paratoi cadarn ar gyfer byw'n annibynnol heb ddigwydd o bosib, neu nad oedd y person ifanc wedi deall yr hyn ddywedwyd wrtho/wrthi yn iawn.

Gan fod dyletswydd ar awdurdodau lleol i drefnu llety addas a darparu cymorth i'r rhai sy'n gadael gofal, mae'n anodd deall sut mae'r rhai sy'n gadael gofal yn gallu troi'n ddigartref mewn sefyllfa oedd o'r fath. Byddem wedi disgwyl i'r rhai sy'n gadael gofal dderbyn cymorth gydag unrhyw brinder arian ar gyfer taliadau rhent. Mae hefyd yn frwydychus nad oedd y bobl ifanc yn teimlo y gallai unrhyw un eu helpu, ac felly eu bod yn gweld eu dyledion yn cynyddu, gyda pherygl cael eu troi allan.

Sylw un oedd wedi gadael gofal oedd: *“Mae rhyw 93% o’r rhai sy’n gadael gofal yn methu yn eu cytundeb tenantiaeth o fewn y 6 mis cyntaf ar ôl symud i mewn.....mae’n hurt.”*

Mae rhaid i ni gwestiynu pam mae cynifer sy’n gadael gofal yn cronni ôl-ddyledion rhent oherwydd diffyg dealltwriaeth o’u cytundebau tenantiaeth a’r hyn a ddisgwylir ganddynt fel tenantiaid. Rhaid hyfforddi timau gadael gofal i gefnogi’r rhai sy’n gadael gofal gyda’u hanghenion tai, boed hynny’n golygu gymorth i lenwi ffurflenni, trafod eu rhwymedigaethau fel tenantiaid, neu’n wir ymdrin â pham gallai person ifanc wneud penderfyniad bwriadol i beidio â thalu’r rhent. Mae cael eu troi allan yn lleihau’n sylweddol y cyfleoedd a geir o ran llety pellach, ac felly mae’n cynyddu posibilrwydd digartrefedd tymor hir.

Os yw’r symud o ofal i fyw’n annibynnol yn broses raddol, fel yr ydym ni’n credu y dylai fod, ymddengys bod llety gyda chymorth yn un opsiwn da iawn, lle mae pobl ifanc yn cael eu cefnogi ac yn derbyn cyfle i ddatblygu’r sgiliau y mae eu hangen arnyn nhw i symud ymlaen i fyw’n annibynnol pan fyddan nhw’n barod.

Roedd gan lawer o’r bobl ifanc y cwrdon ni â nhw bethau positif i’w dweud am lety gyda chymorth:

“Mae llety cymeradwy yn cynnig cefnogaeth 24 awr i’r rhai sy’n gadael gofal”

“Mae pecyn o gymorth ar gyfer pob unigolyn”

“Mae llety gyda chymorth yn eich helpu, ac yna yn eich helpu i gael hyd i fflat”

Fodd bynnag, gall fod problemau pan fydd y person ifanc yn symud ymlaen o lety gyda chymorth i fyw’n annibynnol. Teimlai rhai pobl ifanc eu bod yn cael eu brysio a bod pwysau arnyn nhw i adael:

“Diffyg cyfathrebu rhwng tai gyda chymorth a’r gwasanaethau cymdeithasol i weld a oedd y person ifanc yn barod i symud ymlaen”

“Roeddwn i eisiau aros mewn tai gyda chymorth, ond fe ddwedson nhw wrtha i y byddwn i ar waelod y rhestr taswn i ddim yn derbyn fflat cyngor. Roeddwn i’n teimlo bod y cyngor yn rhoi pwysau arna i i symud ymlaen. Cyngor fy ngweithiwr cymdeithasol oedd peidio â mynd, ond roeddwn i’n poeni fyddwn i ddim yn cael cynnig fflat eto. Wnaeth e ddim gweithio, ac fe wnaeth fy ngweithiwr cymdeithasol ymladd yn galed i gael fflat well i fi”

Fel rhan o’n hymchwil, fe gwrdon ni â grŵp ffocws o Benaethiaid Gwasanaethau Plant ac aelodau etholedig i drafod sut maen nhw’n gweld eu rôl fel rhieni corfforaethol. Daeth yn eglur bod y gallu i ddarparu llety priodol ar gyfer y rhai oedd yn gadael gofal yn dibynnu i raddau helaeth ar y berthynas waith rhwng yr adrannau tai a gwasanaethau cymdeithasol. Soniodd rhai am berthynas waith dda, ond teimlai eraill y gellid gwella’r gweithio ar y cyd. Mae rhianta corfforaethol yn berthnasol i bob rhan o weithgareddau awdurdod lleol – nid y gwasanaethau cymdeithasol yn unig. Rhaid i adrannau tai a chynllunio wneud mwy i sicrhau bod digon o lety addas ar gyfer y rhai sy’n gadael gofal.

Ar ben hynny dylai gweithwyr cymdeithasol asesu pob person ifanc yn unigol wrth benderfynu ai dyna’r amser priodol iddyn nhw symud ymlaen o lety gyda chymorth i fyw’n annibynnol. Mae’n hanfodol bod y person ifanc hefyd yn nodi ei ddymuniadau a’i deimladau fel rhan o’r asesiad hwn.

Cododd gofalwr maeth a chynghorydd lleol fater difrifol arall sy’n bosib pan fydd rhywun sydd wedi gadael gofal yn byw mewn llety gyda chymorth. Unwaith mae’r person ifanc yn cael ei gyflogi, mae gofyn iddo/iddi dalu am y llety gyda chymorth o’i enillion. Gall hyn olygu ei fod yn rhatach byw’n annibynnol, ond mae gweithwyr cefnogi wedi tynnu sylw at y ffaith nad yw’r bobl ifanc yma yn aml iawn yn barod i fyw heb gymorth. O dan yr amgylchiadau hyn eto gall y person ifanc deimlo o dan bwysau i fyw’n annibynnol cyn bod yn barod i wneud hynny. Mae astudiaethau eraill wedi ategu’r pryderon hyn. Awgrymodd adroddiad *“Keep dreaming”*³⁹ o wythnos y *‘Care Leavers’ Week’* yn 2010 bod rhaid peidio â chosbi pobl ifanc mewn tai gyda chymorth os cânt eu cyflogi. Yn hytrach dylid eu helpu gydag elfen gefnogaeth eu costau tai. Mae hyn yn rhywbeth rydyn ni’n teimlo sy’n werth ei amlygu eto. Os yw’r ddiffyg llety priodol yn peryglu’r lleoliad yna dylai’r awdurdod lleol weithredu ei rôl fel rhiant corfforaethol a darparu cefnogaeth ychwanegol.

³⁹ Care Leaver’ Week, Keep Dreaming (2010) http://www.thecareleaversfoundation.org/documents/NCLWMagazine_Oct2010.pdf

lechyd

Y ffeithiau

- *Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod plentyn sy'n derbyn gofal wedi cofrestru gyda meddyg teulu, a dylai drefnu bod y plentyn yn derbyn yr ystod lawn o driniaeth ddeintyddol GIG⁴⁰.*
- *Dylai pob plentyn sy'n derbyn gofal gael asesiad rheolaidd gan nyrs arbenigol plant sy'n derbyn gofal (nyrs PDG). Fodd bynnag, yng Nghymru yn gyffredinol, dim ond 82% o'r asesiadau a gwblhawyd – ac yn achos yr awdurdod lleol oedd â'r perfformiad gwaethaf, dim ond 53% o'r asesiadau a gwblhawyd⁴¹.*
- *Mae anhwylderau meddyliol yn arbennig o amlwg yn y grŵp yma o blant a phobl ifanc – yn enwedig anhwylderau ymddygiad. Cynhyrchodd yr ymchwil berthnasol ddiweddaraf ar gyfer pobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghymru, a gynhaliwyd yn 2003⁴², ystadegau sy'n dangos bod amlygrwydd anhwylderau meddyliol yn 40% ymhlith plant 11 i 15 oed sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol o'i gymharu â 12% yn achos plant o'r arolwg aelwydydd preifat.*
- *Awgrymodd adroddiad diweddarach yn y DU⁴³, a gyhoeddwyd yn 2007, fod nifer uwch fyth o blant o bob oed oedd yn derbyn gofal yn dioddef o anhwylderau meddyliol, rhwng 45% a 49%.*

⁴⁰ Llywodraeth Cymru, Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell

⁴¹ Ystadegau Uned Ddata Cymru 2009-2010 http://dissemination.dataunitwales.gov.uk/webview/index.jsp?study=http%3A%2F%2F192.168.100.31%3A80%2Fobj%2FStudy%2FSCC_2008_09_v1&mode=cube&language=en&v=2&cube=http%3A%2F%2F192.168.100.31%3A80%2Fobj%2Fcube%2FSCC_2008_09_v1_C1&top=yes

⁴² http://www.statistics.gov.uk/downloads/theme_health/mentalhealth_WalesSummary.pdf

⁴³ Ford, Vostanis, Metzger a Hammond, Psychiatric disorder among British children looked after by local authorities: comparison with children living in private households yn The British Journal of Psychiatry (2007) <http://bjp.rcpsych.org/cgi/content/full/190/4/319>

Adnoddau iechyd a chefnogaeth

Bydd yr adran sy'n dilyn yn manylu ar yr amrywiol adnoddau iechyd a chefnogaeth y dylid eu darparu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n gadael gofal.

Roedd mwyafrif y bobl ifanc y buon ni'n siarad â nhw yn ymwybodol o nyrsys plant sy'n derbyn gofal (PDG) ac asesiadau iechyd. Roedd yr ymateb i'r rhain yn amrywio; roedd rhai o'r bobl ifanc y buon ni'n siarad â nhw yn hoffi gallu adolygu eu taldra, eu pwysau a materion iechyd eraill, ond roedd eraill yn cael eu bod yn llai buddiol, ac ym marn rhai roedden nhw'n nawddoglyd, neu o fawr ddim gwerth:

“Does dim pwynt iddyn nhw, dim ond llenwi ffurflenni, does dim sgwrsio”

Ar nodyn cadarnhaol, roedd yn galonogol bod y bobl ifanc y siaradon ni â nhw yn ymddangos yn hyderus eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar help a chyngor ar amrywiol faterion iechyd, yn cynnwys iechyd rhyw. Yn ogystal â'r nyrs PDG, fe ddwedson nhw y bydden nhw'n siarad â'u gofalwr maeth a/neu eu gweithiwr cymdeithasol neu'n cysylltu â'u meddyg. Fodd bynnag, os oedd y plentyn mewn gofal maeth, fel arfer bydden nhw'n troi at y gofalwr maeth yn gyntaf, ac roedd y bobl ifanc yn teimlo y dylai fod gan y gofalwr maeth yr wybodaeth roedd arny nhw ei hangen:

“Dwi'n credu mai mater i ofalwyr maeth yw e, nid gweithwyr cymdeithasol.”

“Dylen nhw gefnogi chi, fel rhieni arferol.”

Fel rhan o'n hymchwil, fe wnaethon ni gwrdd â nyrs PDG a ddywedodd wrthyn ni ei bod hi'n teimlo, yn ei hardal hi o leia, bod plant a phobl ifanc oedd yn derbyn gofal fwy na thebyg yn derbyn darpariaeth well na'r boblogaeth yn gyffredinol. Serch hynny, roedd adroddiad⁴⁴ ar iechyd plant oedd yn derbyn gofal a gyhoeddwyd yn 2005 gan Plant yng Nghymru yn awgrymu bod eu hiechyd yn waeth mewn rhai ffyrdd:

➤ *Maen nhw 4 gwaith yn fwy tebygol nag eraill o smygu, yfed a chymryd cyffuriau*

➤ *Maen nhw mewn sefyllfa waeth o ran gofal deintyddol arferol, statws imiwneiddio ac ymddygiad sy'n bygwth iechyd*

⁴⁴ Plant yng Nghymru, Prosiect Gofalu am Iechyd 2002-2004, (2005) <http://www.childreninwales.org.uk/areasofwork/lookedafterchildren/healthoflookedafterchildren/ahproject/index.html>

Dylai fod modd sicrhau bod iechyd cyffredinol plant sy'n derbyn gofal yn dda iawn, gan fod gwasanaeth nyrsio penodol ar eu cyfer. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy o ymdrech i sicrhau bod asesiadau iechyd yn cael eu cwblhau ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ledled Cymru.

Yn ôl canllawiau'r National Institute for Health and Clinical Excellence (NICE) a'r Social Care Institute for Excellence (SCIE), *Promoting the quality of life of looked-after children and young people*⁴⁵, “gall problemau iechyd corfforol a meddyliol gynyddu” ar ôl i berson ifanc adael gofal, a gall y canlyniadau fod yn “fwy difrifol a pharhaus yn achos rhai pobl ifanc a fu'n derbyn gofal”, gan gynnwys y rhai sy'n gadael gofal yn gynnar. Os gwelir gofalwyr maeth fel prif ffynhonnell cefnogaeth materion iechyd i'r bobl ifanc hynny sydd mewn gofal maeth, unwaith maen nhw'n gadael gofal, oni bai eu bod yn parhau mewn cysylltiad â'u gofalwr maeth, mae'n debygol y bydd bwlch yn eu cefnogaeth – yn enwedig os bydd y person ifanc yn gadael gofal maeth cyn eu pen-blwydd yn 18. I'r bobl ifanc hynny sy'n byw mewn gofal preswyl, y gweithiwr cyswllt preswyl sy'n gyfrifol am hybu iechyd a chyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal, mewn cysylltiad â gweithwyr proffesiynol allweddol, gan gynnwys y nyrs PDG, meddyg teulu'r plentyn a'i ddeintydd, ond unwaith mae'r person ifanc wedi gadael gofal, mae'n anhebygol y cynhelir y cyswllt yma, ac mae'n bosib iawn y byddan nhw'n cael eu gadael heb gefnogaeth.

Er nad oedd mynediad i gymorth gydag anghenion iechyd cyffredinol yn destun fawr ddim pryder, i bobl ifanc oedd yn dal i fyw mewn gofal, gwelton ni ddarlun gwahanol wrth drafod y mater yma gyda rhai oedd yn gadael gofal. Roedd rhai ohonyn nhw wedi symud lleoliad daearyddol wrth adael gofal, a heb gofrestru gyda meddyg newydd. Doedd ganddyn nhw ddim llawer o ymwybyddiaeth sut i wneud hynny ac roedd gwybod y byddai rhaid iddyn nhw lenwi ffurflenni yn atal rhai rhag mynd ati.

Yn *Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell* dywedir:

“Dylai'r Cynllun Llwybr roi sylw i'r anghenion iechyd a aseswyd ar gyfer y person ifanc a nodi'n glir sut yr ymatebir iddynt. Rhaid rhoi sylw penodol i angen y person ifanc am gefnogaeth wrth gymryd cyfrifoldeb am ei (h)iechyd ei hun a chyrchu gwasanaethau priodol, gan gynnwys gwybodaeth a chyngor”⁴⁶.

⁴⁵ National Institute of Health and Clinical Excellence (NICE) and Social Care Institute for Excellence (SCIE), *Promoting the quality of life of looked-after children and young people*(2010)

⁴⁶ Llywodraeth Cymru, *Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell*

Ar ben hyn, dylai pobl ifanc sy'n gadael gofal gael eu hannog i gofrestru gyda meddyg teulu a sicrhau mynediad at ddeintydd. Dylen nhw hefyd gael eu hysbysu ynghylch yr ystod o wasanaethau GIG sydd ar gael, a derbyn gwybodaeth am y broses o gael mynediad i wasanaethau. Yn hollbwysig, dylai gweithwyr iechyd proffesiynol sicrhau bod gan y person ifanc gysylltiadau penodol ar ffurf gweithwyr iechyd proffesiynol a sefydliadau os bydd yn dewis mynd i ardal arall i fyw:

"Os bydd plentyn sy'n derbyn gofal neu blentyn sy'n gadael gofal yn symud allan o ardal Bwrdd Iechyd Lleol, dylid gwneud trefniadau trwy drafodaeth rhwng y BIL Gwreiddiol (y rhai sy'n darparu'r gofal iechyd ar hyn o bryd) a'r darparwr newydd, er mwyn sicrhau dilyniant yn y gofal iechyd" (ibid.)

Er bod y canllawiau'n nodi beth ddylai ddigwydd pan fydd person ifanc yn gadael gofal, o siarad â phobl ifanc sydd wedi gadael gofal, mae'n ymddangos nad yw'r trefniadau hyn yn gyson. Mae hwn yn faes y mae angen mynd i'r afael ag ef trwy ôl ofal, gan roi mwy o ffocws ar gefnogi person ifanc sy'n gadael gofal i gofrestru gyda meddyg a deintydd a chael mynediad i'r help a'r gefnogaeth y gallai fod eu hangen arno/arni. Yn achos rhai pobl ifanc gall fod angen mynd gam ymhellach, drwy roi'r gefnogaeth angenrheidiol iddynt, yn ogystal â'r wybodaeth, i sicrhau eu bod yn gallu cyrchu darpariaeth i ymateb i'w hanghenion iechyd a'u bod yn mynd ati i wneud hynny.

Mae hefyd yn bwysig bod y rhai sy'n gadael gofal yn gwybod y gallen nhw hawlio help o bosib gyda chostau gofal iechyd, trwy gynlluniau fel Cynllun Incwm Isel y GIG. Bydd angen hefyd iddyn nhw wybod pa gymorth ariannol sydd ar gael iddyn nhw gan eu hawdurdod lleol, er enghraifft cost profion llygaid a sbectol. Rhaid hyfforddi gweithwyr cymdeithasol ac ymgynghorwyr personol fel eu bod yn gallu cynghori'r rhai sy'n gadael gofal ar bob agwedd ar ofal iechyd ac unrhyw gymorth ariannol perthnasol sydd ar gael i ymateb i'w hanghenion iechyd.

Efallai bydd pobl ifanc am gael apwyntiad cyfrinachol gyda meddyg heb gynnwys eu gofalwr maeth neu eu gweithiwr cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'n amheus a fydd pob person ifanc sy'n mynd i feddygfa yn cael gweld meddyg yn breifat. Yn y gorffennol rydym wedi cael cais gan fwrdd iechyd lleol i ddarparu hyfforddiant ar hawliau plant oherwydd eu bod nhw'n pryderu bod rhai derbynnyddion meddygfa wedi dweud wrth pobl ifanc bod rhaid i riant fod gyda nhw os oedden nhw eisiau gweld meddyg. Dylai pobl ifanc allu gweld meddyg ar eu pennau eu hunain os ydyn nhw'n ddigon aeddfed ac yn gallu gwneud hynny. Disgrifiodd un person ifanc sut yr aeth i'r feddygfa leol yn 16 oed i gofrestru, ac fe ofynnodd nhw am lofnod ei riant, er iddo esbonio ei fod yn byw yn annibynnol.

Cysylltodd gweithiwr proffesiynol â ni, a oedd yn gweithio gyda pherson ifanc a oedd wedi gadael gofal ac wedi ceisio cofrestru gyda'r practis meddygon teulu lleol. Roedd y person ifanc wedi mynd i'r practis i gofrestru ac wedi gofyn am apwyntiad, oherwydd nad oedd yn teimlo'n iach. Pan gyrhaeddodd y feddygfa, gwrthododd y derbynnydd gofrestru'r person ifanc, a dweud mai dim ond dros y ffôn y gallai dderbyn cleifion newydd. Yn sâl, a heb fod mewn sefyllfa i ddadlau, gadawodd y person ifanc y feddygfa heb gofrestru a heb gael gweld meddyg. Yna aeth gweithiwr cymorth i'r feddygfa gyda'r person ifanc a chael yn union yr un ymateb. Yn y diwedd, roedd rhaid i'r person ifanc gamu allan o ddrws y practis a, chan ddefnyddio ffôn y gweithiwr cymorth gan nad oedd credyd ar ei ffôn ei hun, gwneud y cais am gofrestru a gweld meddyg.

Er nad yw hyn o reidrwydd yn broblem gyffredinol, dylai byrddau iechyd lleol ystyried anfon canllawiau i feddygfeydd teulu yn eu hardal yn amlinellu'r arfer gorau wrth ymwneud â phobl ifanc sydd am gael mynediad i wasanaethau, ond sydd heb riant neu ofalwr i'w cofrestru. Mae angen rhoi arweiniad clir a hyfforddiant i'r holl staff gofal cychwynnol ar sut mae asesu gallu person ifanc sy'n dymuno cael mynediad i'w gwasanaethau heb ymwneud â riant neu ofalwr.

Heblaw am faterion iechyd cyffredinol, doedd y bobl ifanc y buon ni'n siarad â nhw ddim yn siŵr bod cymorth iechyd meddwl yr un mor effeithiol ym mhob rhan o Gymru. Dywedodd cynrychiolydd nyrsys PDG wrthyn ni fod llwybr atgyfeirio llawer cyflymach i blant sy'n derbyn gofal i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl ifanc (CAMHS). Fodd bynnag, nid ymddangosai fod pob person ifanc yn ymwybodol sut i gael mynediad i'r cymorth yma:

"Dydych chi ddim yn cael dim help gyda'ch iechyd meddwl."

"Pan oeddwn i eisiau gwybodaeth am fy iechyd meddwl, allai hi ddim ateb unrhyw un o'm cwestiynau, felly roeddwn i yn llythrennol yn mynd ati dim ond i gael fy mhwyso, fy mesur, ac i brofi fy llygaid."

Soniodd un person ifanc am ofyn i'r nyrs PDG helpu gyda iechyd meddwl, ond allai'r nyrs ddim ei chyfeirio at neb.

Dylid nodi bod y swyddfa hon wedi derbyn galwadau gan blant a leolwyd y tu allan i'r sir sy'n cael mwy fyth o drafferth i gyrchu gwasanaethau iechyd cynorthwyl megis CAMHS. Mae rhestrau aros hir a diffyg blaengynllunio yn aml yn golygu bod rhaid i bobl ifanc deithio'n bell i ymweld ag ymarferwyr CAMHS o'r sir lle mae eu cartref, neu eu bod yn cael eu hunain mewn sefyllfa heb unrhyw ddilyniant gofal, oherwydd bod yr awdurdod lleol wedi methu hysbysu a chynllunio'r symud yn briodol.

Datblygiad diweddar sydd yn boblogaidd iawn gyda phobl ifanc o ran helpu i ymateb i'w hanghenion iechyd emosiynol yw darparu cwnsela yn yr ysgol. Mae gwasanaethau cwnsela bellach ar gael ym mhob ysgol uwchradd, gyda chynlluniau peilot mewn rhai ysgolion cynradd. Gwelir llwyddiant y gwasanaeth newydd hwn yn adroddiad gwerthusiad cenedlaethol sydd heb ei gyhoeddi eto – fe'i disgwyliad ddiwedd Mai. Mae'r gwasanaeth wedi cael defnydd da gan blant a phobl ifanc yn gyffredinol, ond mae hynny'n fwy gwir fyth yn achos plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Cyflenwyd ychydig o dan 5% o'r sesiynau therapi i bobl ifanc oedd yn derbyn gofal. Mae hyn yn cynrychioli 10.5% o nifer y plant a'r bobl ifanc oed ysgol uwchradd yng Nghymru sy'n derbyn gofal, tra mai lefel y boblogaeth ysgol uwchradd gyffredinol oedd yn manteisio ar y cwnsela oedd 2.89%.

Byw'n Annibynnol

Pryd i adael gofal

Un o'r negeseuon mwyaf cyson gawson ni gan bobl ifanc, gweithwyr proffesiynol ac aelodau etholedig y cwrddon ni â nhw yn ystod ein hymchwil oedd bod rhaid i lawer o bobl ifanc adael gofal cyn eu bod nhw'n barod, a bod y newid, yn hytrach na bod yn raddol, yn aml yn rhy gyflym neu'n rhy sydyn.

Ymddangosai fod y rhai oedd yn gadael gofal yn cael negeseuon cymysg am ba mor hir gallen nhw aros mewn gofal. Mae Deddf Plant (yn gadael gofal) 2000 yn glir bod pobl ifanc yn gallu aros mewn gofal nes eu bod nhw'n 18 os ydyn nhw mewn addysg amser llawn. Hefyd doedd dim llawer o ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc eu bod nhw'n gallu mynd yn ôl i ofal os oedden nhw'n teimlo eu bod nhw wedi dewis byw'n annibynnol yn rhy fuan. Er y gall hyn achosi anawsterau ymarferol i'r gwasanaethau cymdeithasol oherwydd na fydd lleoliad maeth blaenorol y person ifanc ar gael bellach o reidrwydd, neu oherwydd y gall datganiad o bwrpas yr unedau preswyl atal y person ifanc rhag dychwelyd yno oherwydd eu hoedran, dyw hynny ddim yn rheswm digonol dros wrthod eu derbyn yn ôl i ofal.

Er mwyn helpu pobl ifanc sy'n gadael gofal mewn rhai awdurdodau lleol, roedd rhai pobl ifanc oedd yn gadael gofal y buon ni'n siarad â nhw yn gweithredu fel mentoriaid cyfoed ar gyfer plant a phobl ifanc oedd yn paratoi i adael gofal. Roedden nhw'n teimlo bod hyn yn bwysig iawn gan eu bod nhw'n gallu rhannu eu profiadau o adael gofal. Yn bennaf, fe ddwedson nhw wrthyn ni, roedden nhw'n cynghori pobl ifanc i aros mewn gofal nes bod rhaid iddyn nhw adael yn 18 oed.

Roedd neges glir yn dod oddi wrth y bobl ifanc hyn y dylen nhw fod wedi cael eu paratoi ar gyfer annibyniaeth yn gynharach:

"Maen nhw'n gadael e'n rhy hwyr i ddweud wrthy ch. Rydw i'n 17 a dim ond blwyddyn sydd i fynd. Byddai wedi bod yn well dweud wrthyf fi o'r blaen."

Pan wnaethon ni ofyn ar ba oed, yr ymateb oedd:

"Dyle fod yn 15, ond mae'n dibynnu ar aeddfedrwydd y person. Ddylech chi ddim cymryd yn ganiataol eu bod nhw ddim yn ddiagon aeddfed."

Roedd llawer o'r bobl ifanc eraill hefyd yn cytuno y dylai paratoi ar gyfer annibyniaeth gychwyn yn 15 oed. Fodd bynnag, mae angen ymdrin â hyn yn sensitif fesul achos gan fod rhai o'r bobl ifanc y cwrddon ni â nhw yn amlwg yn pryderu am orfod symud allan yn 18 oed:

"Mae'n cael ei orfodi arnoch chi yn rhy ifanc...mae'n strywa eich plentyndod."

Mae hefyd yn bwysig rhoi ystyriaeth i beth arall sy'n digwydd ym mywyd y person ifanc ar y pryd. Mae achos a gyfeiriwyd at ein gwasanaeth cyngor a chefnogaeth yn dangos yn eglur y problemau all gael eu hachosi i bobl ifanc pan fydd gweithwyr proffesiynol yn glynu at reolau a rheoliadau heb edrych ar y darlun ehangach ac ystyried beth fyddai'n fwyaf llesol i'r person ifanc.

Cawson ni alwad gan berson ifanc pryderus iawn oedd i fod i gael ei ben-blwydd yn 18 hanner ffordd trwy ei arholiadau lefel A. Roedd y person ifanc yma wedi cael ar ddeall gan y gwasanaethau cymdeithasol y byddai rhaid iddo symud i lety gwely a brecwast cyn gorffen ei arholiadau y diwrnod ar ôl ei ben-blwydd yn 18. Roedden ni wedi cael ein hysbysu bod y gofalwr maeth yn hapus i'r person ifanc aros gyda nhw ar ôl ei ben-blwydd yn 18, a derbyn lwfans llety gyda chymorth yn lle lwfans gofalwr maeth. Roedd gweithiwr cymdeithasol y person ifanc wedi bod yn bendant bod rhaid i'r person ifanc adael ei leoliad maeth. Fe wnaethon ni gyflwyno achos ar ran y person ifanc yma i reolwyr y gwasanaethau cymdeithasol, a gytunodd yn y pen draw i adael iddo aros yn y lleoliad maeth tra bod y gofalwr maeth yn derbyn lwfans llety gyda chymorth, a olygodd ei fod wedi gallu cwblhau ei arholiadau'n llwyddiannus a mynd ymlaen i'r coleg.

Clywson ni am sefyllfa debyg gan ofalwr maeth oedd yn rhan o grŵp ffocws a drefnwyd gennym ni ar gyfer yr adroddiad hwn. Soniodd y gofalwr maeth am y problemau a gafodd i sicrhau cytundeb ar gyfer statws llety a chymorth. Roedd wedi maethu person ifanc am bum mlynedd, wedi meithrin perthynas agos a nhw, ac yn dymuno troi'r lleoliad maeth yn lleoliad llety gyda chymorth. Roedd wedi clywed na fyddai hynny'n bosib oherwydd mai gweithio i asiantaeth yr oedd, ac nid fel gofalwr maeth i'r awdurdod lleol. Serch hynny, roedd yn barod i adael iddi aros tra bod hi'n cwblhau ei chwrs yn y coleg. Newidiodd yr awdurdod lleol eu meddwl yn ddiweddarach, ond ddeufis cyn ei phen-blwydd yn 18, doedd gan y person ifanc na'r gofalwr maeth ddim manylion o ran beth gallen nhw hawlio.

Gall sefyllfaoedd fel hyn achosi llawer iawn o straen a chythrwfl ar adeg pan fo person ifanc yn ceisio canolbwyntio ar astudio. Gan ein bod am weld gwell cyrhaeddiad addysgol gan bobl ifanc sy'n derbyn gofal, mae'n bwysig deall y gall ffactorau eraill ym mywyd person ifanc hefyd gael effaith fawr ar eu cyflawniad addysgol.

Roedden ni hefyd yn pryderu am yr wybodaeth gamarweiniol oedd i'w gweld am ganlyniadau symud o ofal i fyw'n annibynnol, yn enwedig o ran addysg. Roedd yn destun pryder ein bod yn cwrdd a phobl ifanc oedd yn awyddus i fynd i addysg uwch a phellach, ond a oedd yn teimlo nad oedd hynny'n bosib gan eu bod wedi cael yr argraff na fydden nhw'n gallu fforddio gwneud hynny wrth fyw'n annibynnol, neu na fydden nhw'n gallu ymdopi a'r ddau brofiad ar unwaith. O ystyried y gall addysg agor y drws i gyfleoedd gwell ar gyfer plentyn sydd wedi derbyn gofal, roedd yn siom bod y rhagdybiaeth y byddai rhaid iddyn nhw fod yn annibynnol yn 18 oed, neu 16 mewn rhai achosion, yn amharu ar eu dyheadau personol, gan eu bod yn teimlo felly y byddai rhaid iddyn nhw ganolbwyntio eu holl amser ac egni ar fyw'n annibynnol:

"Rwy'n credu byddai i'n cael trafferth cael tŷ yn 18 oed.... ond taswn i yn aros nes mod i yn hŷn ac yn mynd ymlaen i brifysgol a chael swydd... swydd dda, byddwn i wedi gwell sefyllfa i allu fforddio hynny"

"Roedden ni bob amser yn teimlo bod ein haddysg wedi diodde wrth gael ein symud allan yn 16... rydych chi'n dysgu byw'n annibynnol, sut gallwch chi feddwl am fynd i'r coleg?"

Mae pobl ifanc sy'n gadael gofal yn amlwg yn gorfod ymdopi a phrofiad sydd ddim yn dod i ran llawer o bobl ifanc eraill yn eu harddegau nes eu bod nhw dipyn yn hŷn. Yn ôl adroddiad Demos, ar gyfartaledd, mae'r mwyafrif o bobl ifanc yn symud allan o gartref y teulu ac yn dechrau byw'n annibynnol yn 24 oed⁴⁷:

In Loco Parentis:

Every year, around 6,000 looked-after children leave care for good; 21 per cent are 16, 17 per cent are 17 and 61 per cent are 18.

This ought to be compared with the average age when young people leave home in the general population: 24. This means a significant proportion of young people are still leaving care prematurely to live alone in private accommodation, ill prepared for the realities of adult life.

Paratoi i adael gofal a byw'n annibynnol

Dyweddod llawer o'r bobl ifanc y buon ni'n siarad â nhw fod meddwl am orfod byw'n annibynnol yn **"codi ofn arnyn nhw"**. Mae sicrhau cefnogaeth dda ymhell cyn i bethau ddechrau achosi **"ofn"** yn bwysig ac yn rhywbeth y dylen nhw ei dderbyn. Ni ddylai newid i fyw'n annibynnol gael ei weld fel rhywbeth sy'n digwydd yn sydyn, a dylai'r paratoi ar gyfer y newid yma ddigwydd dros lawer o flynyddoedd fel proses raddol. Petai gwel dealltwriaeth o hyn, efallai byddai'r bobl ifanc yn pryderu llai. Cafodd hyn ei grynhoi yn adroddiad Sefydliad Demos **"In Loco Parentis"**⁴⁸:

"To support positive outcomes for care leavers and build their resilience, the care system must provide emotional preparation before they leave care and continued emotional support throughout young people's transition to independence. The stress and depression reported by many care leavers may be linked to the rapid series of changes and the withdrawal of support that many experience at this time."

Dylai'r cynllunio ar gyfer symud o ofal i fyw'n annibynnol gychwyn yn yr adolygiad PDG wedi pen-blwydd person ifanc sy'n derbyn gofal yn 15. Fodd bynnag, dylai rhai o'r darpariaethau ar gyfer pobl ifanc sy'n derbyn gofal fod yn eu lle eisoes:

- ➔ *Gweithiwr cymdeithasol*
- ➔ *Eiriolwr – os ydyn nhw eisiau un*
- ➔ *Ymwelydd annibynnol – os ydyn nhw eisiau neu angen un, ac os ydyn nhw'n gymwys*
- ➔ *Person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol.*

Mae'r rhain yn elfennau hanfodol o gymorth sy'n darparu sylfaen y dylai pawb sy'n gadael gofal yn y dyfodol allu adeiladu arni.

Gwaetha'r modd, nid yw'n ymddangos bod y rhain yn eu lle yn gyson. Yn un o gyfarfodydd y Comisiynydd clywodd y neges hon gan berson ifanc a oedd ar fin symud i fyw'n annibynnol: doedd e ddim yn gwybod beth oedd cynllun llwybr, a phan ddwedson ni wrtho fe y gallai gael eiriolwr, doedd gan y person ifanc ddim syniad beth oedd eiriolwr na sut gallai gael un. Meddai:

"Doeddwn i ddim yn gwybod mod i'n gadael gofal nes i mi gwrdd â rhywun o'r ... tîm gadael gofal. Doeddwn i ddim yn gwybod beth i ddweud"

Sgiliau a chefnogaeth emosiynol ar gyfer annibyniaeth

Fe wnaethon ni ofyn i bobl ifanc oedden nhw'n teimlo bod ganddyn nhw'r sgiliau i fyw'n annibynnol. Roedd pobl ifanc hyn i weld yn gymharol hyderus ynghylch sgiliau fel coginio a glanhau. Roedd rhai wedi mynd ar gyrsiau strwythuredig i'w helpu i ddatblygu sgiliau, cyfeiriodd un grŵp at gegin gymunedol y gallen nhw ei defnyddio, ac roedd person ifanc arall yn dilyn cwrs yn y coleg. Soniodd eraill am "godi pethau" gan eu gofalwyr maeth. Cawson ni ambell enghraifft lle'r oedd pobl ifanc yn derbyn cymhelliad am gwblhau tasgau yn y tŷ.

Disgrifiodd un person ifanc sut aeth yr ymgynghorydd personol â hi i siopa unwaith i brynu bwyd ar gyfer yr wythnos. Cafodd fod hynny'n help iddi, ond teimlai nad oedd gwneud unwaith yn ddigon. Sgiliau bywyd yw'r rhain ac mae angen eu datblygu dros amser. Enghreifftiau eraill o'r gefnogaeth fuddiol roedd pobl ifanc yn eu teimlo eu bod wedi'i derbyn wrth fyw'n annibynnol oedd cefnogaeth gyda gwersi gyrru, cefnogaeth i fynd i'r coleg, help i brynu gliniadur ar gyfer gwaith coleg, a chyswllt â fforwm y rhai oedd yn gadael gofal.

Disgrifiodd person ifanc arall gynllun yr oedd hi'n rhan ohono lle roedd hi'n gallu byw yn ei fflat ei hun am fis cyn penderfynu oedd hynny'n addas iddi hi. Trafododd un arall sut cafodd e gyfle i fyw mewn fflat annibynnol mewn cartre preswyl am beth amser cyn bod yn gwbl annibynnol. Roedd y bobl ifanc yma'n teimlo bod y cyfleoedd hyn yn amhrisiadwy.

Ochr yn ochr â phwysigrwydd meddu ar y sgiliau ymarferol angenrheidiol, fe glywsom ni am y daith emosiynol mae'r rhai sy'n gadael gofal yn ei phrofi wrth symud i fyw'n annibynnol. Mynegodd llawer o'r bobl ifanc bryderon ynghylch pa mor anodd oedd byw ar eu pennau eu hunain am y tro cynta iddyn nhw:

"Roeddwn i'n teimlo mor ynysig."

"Y noson gynta yn fy lle fy hun oedd y peth mwya brawychus erioed. Rydych chi wedi arfer cael y plant eraill yn gwneud stŵr o'ch cwmpas, a wedyn dim byd."

"Yr wythnos gynta – roeddwn i isie crïo."

Gall canlyniadau'r trallod emosiynol yma fod yn bellgyrhaeddol ac effeithio ar agweddau eraill ar fywyd y person ifanc. Canfu adroddiad **Centrepont A place to call home**⁴⁹: *"loneliness can turn to depression. This, in turn can have a negative effect on their education and work"*.

⁴⁸ http://www.demos.co.uk/files/In_Loco_Parentis_-_web.pdf?1277484312

⁴⁹ Centrepont, A place to call home: care leavers' experience of finding suitable accommodation (2006) <http://www.leavingcare.org/data/tmp/2149-4944.pdf>

Fe wnaethon ni ofyn i'r bobl ifanc pa gefnogaeth roedden nhw'n teimlo oedd ar goll, a neges gyson gawson ni oedd bod diffyg cefnogaeth emosiynol i bobl ifanc sydd wedi gadael gofal ac sy'n byw'n annibynnol. Mae'r diffyg cefnogaeth yma yn gallu cael effaith aruthrol ar sefydlogrwydd y bobl ifanc yma ac yn wir ar eu dyfodol, ac mae hynny'n digwydd:

"Dwy ddim yn credu bod ni'n cael unrhyw gefnogaeth emosiynol.... maen nhw'n dysgu llwyth o sgiliau i ni, ond dim byd ar gyfer teimlo'n unig."

"Mae angen llawer o gefnogaeth emosiynol arnoch chi wrth adael gofal.... jyst gwybod bod rhywun yno. A dylai eich blwyddyn gynta o symud allan fod yn flaenoriaeth."

"Dylen ni gael rhywun fel ymwelydd annibynnol.... Pobl sy ddim yn y gwasanaethau cymdeithasol. Rhywun sy'n galw mewn i gael paned gyda chi."

Yn wir, roedd gweithiwr cyswllt mewn cartre preswyl yn ategu hyn:

"Gallwn ni eu paratoi nhw ar gyfer yr holl beithau ymarferol, ond nid ar gyfer yr unigrwydd!"

Roedd adroddiad Centrepoin yn tueddu i gadarnhau'r neges hon, drwy ddweud bod y bobl ifanc y buon nhw'n siarad â nhw yn teimlo bod y paratoi ar gyfer gadael gofal yn canolbwyntio gormod ar sgiliau ymarferol fel DIY a choginio, ond ddim yn wir yn eu paratoi nhw ar gyfer yr holl faterion bydden nhw'n eu hwynebu wrth adael gofal, fel yr unigrwydd.

Dylai awdurdodau lleol edrych eto ar y gwaith paratoi maen nhw'n ei wneud gyda phobl ifanc sy'n paratoi i adael gofal, a'r gefnogaeth barhaus maen nhw'n ei darparu ar ôl iddyn nhw adael gofal. Rhaid iddyn nhw sicrhau bod y bobl ifanc nid yn unig yn derbyn sgiliau ymarferol, ond hefyd yn derbyn cyngor i helpu i'w paratoi ar gyfer y materion emosiynol y gallen nhw eu hwynebu ar ôl symud i fyw'n annibynnol. Gallai mentoriaid neu ymwelwyr annibynnol helpu i lanw'r bwlch yma ym mywydau'r rhai sy'n gadael gofal.

Dyweddodd llawer o'r bobl ifanc oedd yn byw mewn gofal maeth y bydden nhw'n cadw mewn cysylltiad â'u gofalywyr maeth ac yn mynd atyn nhw am gyngor neu gefnogaeth:

"Os bydd angen help arna i, bydd fy ngofalywyr yn fy helpu."

Fydd hyn ddim yn wir yn achos pawb sy'n gadael gofal wrth gwrs, ac felly, bydd argaeledd cefnogaeth emosiynol ychwanegol yn hanfodol ar gyfer y bobl ifanc hynny. Er enghraifft, roedd yn gwbl ddealladwy bod mwy o bryder ynghylch gadael gofal ymhlith pobl ifanc oedd wedi cael eu lleoli y tu allan i'r sir. Roedd rhai o'r bobl ifanc hynny wedi byw gyda'u gofalywyr ers nifer o flynyddoedd, ac wedi sefydlu rhwydweithiau cefnogaeth yn y gymuned leol. Roedden nhw'n teimlo, petaen nhw'n gorfod symud yn ôl i'w hawdurdod cartref, na fyddai ganddyn nhw neb i'w helpu:

"Dyw rhai plant ddim yn gweld eu teuluoedd, felly tase rhaid iddyn nhw symud i ffwrdd, fyddai ganddyn nhw neb i droi atyn nhw."

Pwynt arall a godwyd gan bobl ifanc oedd yn gadael gofal oedd eu bod yn teimlo ei fod yn bwysig iawn gallu cadw mewn cysylltiad ag eraill oedd wedi gadael gofal ar ôl symud i fyw'n annibynnol. Roedd y gallu i rannu profiadau gyda rhywun mewn sefyllfa debyg yn cael ei weld fel rhywbeth buddiol iawn:

"Pan oeddwn i'n mynd trwy bopeth, roeddwn i'n teimlo'n ofnadw o unig ac ynysig achos doedd neb arall yn mynd trwy'r un peth â fi."

"Dylen nhw greu cyswllt rhwng pawb sy'n gadael gofal, neu gylchgrawn"

"Rydw i'n teimlo ddylen ni ddim cael ein gwithio allan o'r system... achos dydyn ni ddim wedi dewis bod yn y sefyllfa yma."

"Mae pawb yn dychmygu sut brofiad fydd e.... ond dydych chi byth wir yn gwybod nes bod e'n digwydd i chi."

Siaradodd pobl ifanc oedd yn ymwneud â phrosiectau ôl-ofal yn gadarnhaol iawn am y gefnogaeth gawson nhw. Roedd gwybod bod rhywun ar gael i siarad â nhw neu i ofyn iddyn nhw am gyngor yn amhrisiadwy i'r bobl ifanc oedd yn rhan o'r prosiectau yma. Bydden ni'n hoffi gweld pob awdurdod lleol yn darparu cefnogaeth ôl-ofal ansawdd uchel i'r rhai sy'n gadael gofal, gan gynnwys fforwm ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal.

Eiddo personol a dogfennau pwysig

Mae'n hanfodol bod person ifanc, wrth adael gofal, yn meddu ar yr holl ddogfennau pwysig fydd yn angenrheidiol ar gyfer eu bywyd yn y dyfodol. Efallai na fydd yr holl ddogfennau allweddol a phethau i'w cadw mewn un lle, ac efallai na fydd yn hawdd cael gafael arnyh nhw. Mae'n bwysig, wrth gynllunio ar gyfer symud i fyw'n annibynnol, bod holl brif eiddo a dogfennau'r person ifanc ar gael yn hwylus iddyn nhw.

Mae ambell berson ifanc wedi newid lleoliad lawer gwaith, ac efallai na fu'n ymarferol mynd â'u holl eiddo personol gyda nhw o leoliad i leoliad. Yn aml bydd gweithwyr cymdeithasol yn cadw eiddo personol a dogfennau allweddol yn ddiogel mewn "blwch atgofion", fel mae rhai yn ei alw. Yn draddodiadol, blychau go iawn yw'r rhain, ond dylid ystyried sganio gwybodaeth allweddol a'i storio yn electronig yn ogystal – yn ddefnyddiol dylid gwneud y ddau beth.

Soniodd un gweithiwr proffesiynol am gael gweld ffotograff o fam person ifanc, a oedd yn cael ei gario i bobman. Roedd yn amlwg yn cael ei drysori, ond roedd yn treulio, ac edrychai'n debygol y byddai'n syrthio'n ddarnau'n fuan. O'i sganio'n gyflym ar y cyfrifiadur a'i argraffu cynhyrchwyd nifer o gopiâu a'u rhoi i'r person ifanc fel bod modd rhoi'r llun gwreiddiol oedd yn cael ei drysori i'w gadw mewn lle diogel. Mae hon yn enghraifft hyfryd o sut gall gweithred syml wneud gwahaniaeth mawr i berson ifanc.

Agwedd arall ar fyw'n annibynnol yw bod nifer o ddogfennau pwysig y mae ar bawb eu hangen i brofi pwy ydynt, i gael swydd, neu i dderbyn triniaeth feddygol. Roedden ni'n pryderu y gallai fod dogfennau pwysig nad oeddent ar gael ar unwaith, fel tystysgrif geni neu basbort, ond pan holon ni'r bobl ifanc, roedd y mwyafrif i weld yn gwybod beth oedd ganddyn nhw neu beth roedd eu gweithiwr cymdeithasol yn ei gadw'n ddiogel iddyn nhw. Yn **Fy Nghynllun** rydyn ni wedi cynnwys lle i bobl ifanc gadw cofnod o'r dogfennau sydd ganddyn nhw, er enghraifft:

- *Tystysgrif Geni*
- *Rhif Yswiriant Gwladol*
- *Pasbort – yn fodd i sefydlu hunaniaeth*
- *Cerdyn meddygol y GIG*
- *Trwydded yrru.*

Dyweddodd un awdurdod lleol wrthyn ni, pan fydd person ifanc yn cael ei drosglwyddo i'r ffin gadael gofal, y cynhelir gwiriad cynhwysfawr i sicrhau bod yr holl ddogfennau allweddol yn eu lle. Mae hyn yn gadarnhaol iawn, ac fe hoffen ni weld hynny'n digwydd fel arfer cyffredin ledled Cymru, er mwyn atal anawsterau fel y canlynol rhag codi. Cysylltodd person ifanc oedd yn gadael gofal â'n gwasanaeth cyngor a chefnogaeth oherwydd ei fod wedi methu cofrestru yn y coleg. Gwreiddyn y broblem oedd nad oedd ganddo rif Yswiriant Gwladol (YG). Mae'r mwyafrif o bobl ifanc yn derbyn rhif YG yn awtomatig wrth gyrraedd 16 oed, ac roedden ni'n dyfalu pam nad oedd y person ifanc yma wedi cael un. Dyw plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol ddim o reidrydd yn derbyn rhif YG yn awtomatig, gan na fydd Budd-dal Plant wedi cael ei hawlio ar eu cyfer o bosib. Fe wnaethon ni gysylltu â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) ac maen nhw wedi newid eu gwefan⁵⁰ er mwyn rhoi gwybodaeth fwy eglur i weithwyr cymdeithasol ynghylch sut mae cael rhif YG ar gyfer eu plant sy'n derbyn gofal. Mae'n bwysig bod hyn yn cael ei wneud pan fydd plentyn yn cyrraedd 15 oed a 9 mis, er mwyn osgoi problemau yn ddiweddarach, wrth gofrestru ar gyfer coleg neu gael swydd, er enghraifft.

Rydyn ni'n credu bod llawer o amrywiaeth o hyd yn y dogfennau a'r gefnogaeth mae awdurdodau lleol yn eu darparu tra bo person ifanc mewn gofal. Mae angen safoni'r hyn y dylai person ifanc sy'n derbyn gofal neu rywun sy'n gadael gofal ddisgwyl ei dderbyn gan ei awdurdod lleol, megis gwersi gyrru, trwydded yrru a phasbort. Dylai Llywodraeth Cymru roi canllawiau ar hyn i sicrhau agwedd gyson at bob person ifanc sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal, ble bynnag maen nhw'n byw.

⁵⁰ Gwneud cais am rif Yswiriant Gwladol ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal
<http://www.hmrc.gov.uk/ni/intro/number-child.htm>

Pryderon ariannol

Un o'r pryderon mwyaf roedd pobl ifanc yn ei godi gyda ni oedd rheoli arian. Soniodd llawer o bobl ifanc eu bod yn pryderu ynghylch gallu talu'r biliau a mynd i ddyled. Roedd yn destun pryder bod rhai o'r bobl ifanc yn dweud bod dim cyfiri banc ganddyn nhw, a'u bod nhw erioed wedi cynilo arian. Mae cael cyfiri banc yn hanfodol i fyw'n annibynnol, a gallai cael cyfle i reoli cyfrif yn ystod eu cyfnod mewn gofal, gyda chymorth gweithiwr cymdeithasol a gofalwr maeth/gweithiwr cyswllt eu helpu i ddatblygu'r sgiliau fydd yn angenrheidiol wrth iddyn nhw adael gofal.

Fe glywsom ni am rai enghreifftiau da o ofalwyr maeth yn cefnogi pobl ifanc i reoli a chynilo arian. Disgrifiodd un person ifanc sut roedd ei ofalwyr wedi dechrau rhoi lwfans iddo fe ar gyfer prynu deunydd ymolchi ac eitemau personol eraill er mwyn ei helpu i gyllidebu pan fyddai'n byw'n annibynnol. Trafododd person ifanc arall sut mae ei ofalwr maeth yn rhoi ei lwfans i gyd iddo ar unwaith, fel ei fod yn dysgu gwario'r arian yn raddol a gwneud iddo bara. Dywedodd un person ifanc, oedd wedi ei lleoli gyda darparwr maethu annibynnol, mai polisi'r darparwr oedd bod rhaid i'r gofalwr maeth gynilo arian ar ei rhan. Er bod y rhain yn enghreifftiau da, roedd anghysondebau amlwg yma o ran datblygu sgiliau'r person ifanc i reoli arian a darparu cyllid wrth gefn ar eu cyfer pan fyddan nhw'n gadael gofal. Doedd yr holl bobl ifanc mewn gofal ddim yn derbyn cymorth o'r fath i ddysgu sut i reoli eu harian.

Er bod rhai pobl ifanc wedi cael help gyda chyllidebu o bosib yn ystod eu cyfnod mewn gofal, y gwir amdani yw eu bod yn debygol o ddioddef eithrio ariannol ar ôl gadael gofal. Mae adroddiad diweddar⁵¹ gan Consumer Focus Wales yn crynhoi'r sefyllfa:

"However, the majority of care leavers who took part in the research were experiencing financial exclusion – both in terms of their financial-management capabilities and access to appropriate financial products and services to meet their needs. The impact of this was wide ranging from limiting opportunities to progress on to further education or training and not being able to socialize with their friends, to severe and devastating consequences such as struggling to afford food or decent clothing, homelessness and mental health difficulties."

⁵¹ Consumer Focus Wales, From care to where? How young people cope financially after care(2011) <http://www.consumerfocus.org.uk/wales/publications/care-2>

Gall yr eithrio ariannol hwn arwain at dlodi cyfleoedd yn ogystal. Mae llawer o bobl ifanc yn cael eu rhoi mewn llefy sy'n bell o'r coleg a chyfleoedd hamdden, sy'n golygu bod cludiant yn dod yn eithriadol o bwysig iddyn nhw. Os nad oes cysylltiadau cludiant da ar gael ar gyfer y person ifanc, neu os na allan nhw yrru, mae eu cyfleoedd i gymryd rhan mewn gwaith, addysg, cyflogaeth a hamdden yn gyfyngedig. Mae'n ymddangos bod cryn amrywiaeth ymhlith awdurdodau lleol o ran ydyn nhw'n barod i dalu am wersi gyrru a'r prawf gyrru. Yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, mae gallu gyrru yn aml yn ffactor hollbwysig er mwyn mynd i'r coleg a chael swydd. Nid yw cludiant cyhoeddus bob amser yn opsiwn, gan fod y pris llawn yn cael ei godi mewn llawer o ardaloedd ar rai dros 16, a gall fod yn ddud iawn. Mae rhai rhieni corfforaethol yn ystyried rhoi tocyn bws di-dâl i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal – byddai hyn yn un ffordd i rieni corfforaethol helpu eu pobl ifanc sy'n gadael gofal.

Mae'r rhai sy'n gadael gofal yn derbyn cymorth ariannol gan eu hawdurdod lleol i sefydlu cartref newydd – yr enw ar hyn yw'r Grant Gadael Gofal. Gwaetha'r modd, doedd llawer o'r bobl ifanc y buon ni'n siarad â nhw ddim yn ymwybodol y bydden nhw'n cael cymorth o'r fath. Bydden ni'n holi a yw diffyg gwybodaeth am y cymorth ariannol yma yn ychwanegu at eu pryderon ynghylch symud i fyw'n annibynnol?

Efallai'n fwy nag unrhyw agwedd arall ar y broses bontio, roedd yn anodd credu'r amrywiaeth yng ngwerth y grant gadael gofal ar draws awdurdodau lleol. Rhoddodd adroddiad⁵² a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2010 gan Lywodraeth Cymru, wedi ei gomisiynu gan y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol (NYAS), fanylion maint y grant hwn ym mwyafrif awdurdodau lleol Cymru. Roedd uchafswm y grantiau a ddyfynnwyd yn yr adroddiad hwnnw yn amrywio o £2327 i £700. Fodd bynnag, mae'n anodd cymharu ar sail gwerth y grant yn unig oherwydd y gwahanol arferion ar draws awdurdodau lleol. Mae rhai awdurdodau lleol yn disgwyl i bobl ifanc dalu bondiau am lety allan o'r grant, tra bydd eraill yn talu bond ac un mis o rent ar ben y grant. Mae rhai awdurdodau lleol wedi dweud wrthyn ni eu bod nhw'n prynu eitemau ar gyfer cartref y person ifanc ac yna'n hawlio'r TAW yn ôl, gan ddechredu y swm hwnnw i gyfrif grant y person ifanc. Gallai'r arfer hwn gynyddu arian y person ifanc o 20% ar gyfer sefydlu cartref.

⁵² NYAS Cymru, Taking Care of the Future (2010) <http://wales.gov.uk/docs/ds/jlg/research/100604careoffutureen.pdf>

Ym mis Tachwedd 2010 cyhoeddodd⁵³ y Dirprwy Weinidog dros Blant ar y pryd, Huw Lewis AC, gymorth ariannol pellach ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal:

"We will introduce a new transition to adulthood grant for looked after children. This will be a one off £500 grant which will be given to all looked after children who are between the ages of 16 and 18, as they leave care. The use of the grant would be agreed in conjunction with the individual's Personal Adviser who would help them spend or invest the grant in the most appropriate way."

Yn 2010 diddymwyd y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant, a oedd yn darparu cynilion ar gyfer pob plentyn – gan arbed £500 miliwn i lywodraeth y DU. O dan y cynllun hwnnw roedd plant oedd yn derbyn gofal wedi derbyn cyfraniadau blynyddol ychwanegol a oedd yn cydnabod rôl y wladwriaeth fel rhiant corfforaethol. Mewn adroddiad diweddar ar y cyd, mae Barnardo's ac Action for Children wedi cynnig cynllun newydd, fel bod gan blant sy'n derbyn gofal rai cynilion yn barod ar gyfer symud i fyw'n annibynnol. Gwnaeth yr adroddiad **"On our own two feet"**⁵⁴ y cynigion canlynol:

The scheme applies equally to children in England, Wales, Scotland and Northern Ireland.

- *Any child who enters local authority care under Section 20 or Section 31 of the Children Act 19894 (or the equivalent legislation in Scotland and Northern Ireland) and remains in care for a minimum of 13 weeks is eligible.*
- *After 13 weeks the responsible local authority sends the child's details to Her Majesty's Revenue and Customs (HMRC) who will then open an account.*
- *HMRC make an initial payment of £250.*
- *The responsible local authority notifies HMRC if the child spends more than 26 weeks of the next year in care. HMRC will then make a further contribution of £100. The same applies to any subsequent year the child spends in care until they leave care.*
- *Looked after children who currently have the Child Trust Fund would also receive the annual top-up payments if, as above, they have spent more than 26 weeks in care.*

Mae llywodraeth y DU wedi derbyn y cynllun mewn egwyddor, ond ar adeg ysgrifennu mae'r union fanylion heb eu penderfynu'n derfynol.

O ran cymorth ariannol ar gyfer pobl ifanc sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal, rydym yn ategu llawer o argymhellion adroddiad **"From care to where?"** Consumer Focus Wales. Dylai Llywodraeth Cymru safoni gwerth grantiau gadael gofal fel bod pawb yng Nghymru sy'n gadael gofal yn derbyn yr un swm. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod pawb sy'n gadael gofal wedi derbyn addysg ariannol berthnasol, a darparu cefnogaeth er mwyn sicrhau eu bod yn hyderus i reoli eu grantiau gadael gofal a phontio i fyd oedolion.

⁵³ <http://wales.gov.uk/newsroom/childrenandyoungpeople/2010/4628767/?lang=en>

⁵⁴ http://www.barnardos.org.uk/1102_own_2_feet_report.pdf

Casgliad

Rwy'n gobeithio bod yr adroddiad yma wedi rhoi ciplun defnyddiol o brofiadau rhai pobl ifanc wrth adael gofal. O'u safbwynt nhw, mae'n ymddangos y gall fod yn brofiad brawychus ac unig, gyda llawer o rwystrau a heriau i'w hwynebu. Yr hyn sy'n glir yw bod llawer o'r bobl ifanc hyn, gyda chymorth ymroddedig gan ofalwyr maeth, gweithwyr proffesiynol a rhieni corfforaethol, yn gallu ffynnu, ac yn llwyddo i wneud hynny. Ond ar hyn o bryd mae gormod yn methu goresgyn y rhwystr cyntaf.

Mae'r rhai sy'n gadael gofal ac sy'n symud o ofal i annibyniaeth yn cael eu cefnogi gan fframwaith cadarn o ddeddfwriaeth a pholisi sy'n cyflwyno ystod o bethau y gallan nhw eu hawlio a ddylai sicrhau eu bod yn cael cymorth i bontio'n llwyddiannus. Fodd bynnag, mae profiadau plant a phobl ifanc yn awgrymu mai'r gwirionedd yw bod y newid hwnnw'n achosi anawsterau sylweddol iddyn nhw.

Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Fodd bynnag, yn sgîl rhai o'r hanesion rydyn ni wedi eu clywed wrth baratoi'r cyhoeddiad

yma, byddwn i'n cwstiyu a yw gwasanaethau'n cael eu hyrwyddo'n effeithiol, eu hegluro a'u cynnig i blant a phobl ifanc mewn ffordd sy'n eu hannog i'w defnyddio.

Os nad yw pobl ifanc yn gwybod pa wasanaethau sydd ar gael, fyddan nhw ddim yn gwybod i ofyn amdany'n nhw. Mae'n ymddangos nad yw rhoi gwybodaeth i blant a phobl ifanc mewn pecyn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn unig yn ddigonol, ac mae hynny'n fwy gwir byth os yw'r person ifanc yn cael trafferth darllen neu ddeall yr wybodaeth sydd yn y pecynnau. Mae hefyd yn bwysig bod pobl broffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn deall ac yn gwybod am yr ystod lawn o wasanaethau y gall y bobl ifanc y maen nhw'n gweithio gyda nhw eu hawlio.

Ar ben hynny, mae angen mwy o eglurder ynghylch gwahanol rolau'r gweithiwr cymdeithasol, yr ymgynghorydd personol, a hefyd yr ymwelydd annibynnol a'r eiriolwr. Dylid esbonio hyn yn glir wrth y bobl ifanc a'u gofalwyr. Mae rhai gweithwyr proffesiynol y bu fy nhîm yn siarad â nhw wedi drysu ynghylch rôl y gwahanol bobl broffesiynol sy'n ymwneud â bywyd person ifanc, yn enwedig pan fydd y broses bontio'n

cychwyn. Os nad yw'r gweithwyr proffesiynol yn eglur ynghylch rolau ei gilydd, mae'n eithriadol o anhebygol y bydd y person ifanc yn eu deall.

Weithiau mae'r cynllunio ar gyfer pontio o ofal i annibyniaeth yn annigonol ac yn cael ei ruthro, a gall hynny greu goblygiadau sylweddol i'r person ifanc. Mae'n destun pryder arbennig nad yw pobl ifanc bob amser yn rhan o'r broses hon, a bod gweithwyr proffesiynol yn esgus cefnogi dogfennau cynllunio, heb roi sylw i ddymuniadau a theimladau'r sawl sy'n gadael gofal ac esbonio wrthyn nhw'n iawn pam mae'n bwysig iddyn nhw fod yn rhan o rai prosesau.

Er na all y gwasanaethau cymdeithasol barhau i ddarparu llefy, cymorth ac arweiniad yn ddiderfyn, nid yw'r system bresennol yn gwahaniaethu ar sail anghenion y person ifanc. Mae'r system yn rhagdybio y bydd pob person ifanc wedi cyrraedd yr un cam datblygiad, ac y bydd pob un ohonynt yr un mor alluog i fod yn annibynnol ar oedran penodol. Yn amlwg, mae angen mabwysiadu dull llai haearnidd i ymateb i anghenion parhaus y rhai sy'n gadael gofal a'u cefnogi i ddod yn oedolion annibynnol.

Gellid datblygu'n well y gwaith effeithiol ar draws gwasanaethau awdurdodau lleol i ddeall y rhai sy'n gadael gofal ac ymateb iddyn nhw fel rhiant corfforaethol da. Rhennir y cyfrifoldeb o fod yn rhiant corfforaethol ar draws yr awdurdod lleol cyfan. I'r diben hwn, rwy'n galw ar awdurdodau lleol i ddatblygu dull mwy cydlynus ar draws yr awdurdod, gan gynnwys y gwasanaethau cymdeithasol, addysg, tai ac adrannau perthnasol eraill er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn derbyn cymorth a chynghor o'r safon uchaf ar gyfer eu holl anghenion. Mae hynny'n golygu bydd angen i'r awdurdod lleol weithio hefyd mewn partneriaeth â darparwyr sector preifat a gwirfoddol. Rwy'n gwybod bod y partneriaethau hynny wedi eu datblygu'n dda mewn rhai ardaloedd, ond mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn rhoi'r perthasoedd hynny dan bwysau. Nid oes gan awdurdod lleol a'i aelodau yr un cyfrifoldeb pwysicach na rôl bod yn rhiant corfforaethol. Rwy'n talu teyrnged i'r rhai sy'n ymarfer y dyletswydd honno'n llawn, a charwn ofyn i chi i gyd ofalu am y bobl ifanc yma fel y byddech yn ofalu am eich teulu eich hun.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod y materion sy'n ymwneud â gadael gofal a phlant mewn gofal yn ymddangos yn uchel ar yr agenda bolisi ar hyn o bryd. Rwyf wedi cael fy sicrhau bod dealltwriaeth o bwysigrwydd dull cyfannol ac o'r angen am gefnogaeth ymarferol ac emosiyonol gan oedolion y mae'r bobl ifanc yn eu hadnabod yn dda ac yn ymddiried ynddyn nhw ym mhob cam o'r broses. Mae hefyd yn ymddangos bod ewyllys gref ymhlith llawer o aelodau etholedig lleol, gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr i wella'r sefyllfa ar gyfer y bobl ifanc hyn, sy'n agored i niwed. Mae sylfaen ddeddfwriaethol glir, ewyllys gref i wella profiad a chanlyniadau'r rhai sy'n gadael gofal, a llawer o dystiolaeth a chanllawiau i hysbysu a gwella arfer.

Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod llawer o bobl ifanc sy'n gadael gofal yn gwneud yn dda, ac mae hynny'n tystio i'w gwydnwch a'u hymroddiad, a hefyd i beth o'r arfer da a welson ni gan rai awdurdodau lleol, eu gofalwyr maeth, a'r asiantaethau partner sy'n gweithio gyda nhw.

Rwy'n gobeithio bydd y sylwadau yn y cyhoeddiad hwn, a'r blaenoriaethau sy'n dilyn ar gyfer gwella gwasanaeth, yn annog pob rhiant corfforaethol a phawb sydd â rhan yn y gwaith o gefnogi pobl ifanc wrth iddyn nhw adael gofal, i adolygu sut maen nhw'n ofalu am y bobl ifanc yma ac yn eu cefnogi wrth iddyn nhw symud o ofal i annibyniaeth.

Fel bob amser, rwy'n dal yn awyddus i glywed am y gwaith sy'n cael ei ddatblygu i gefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal, a bydd fy nhîm yn parhau i fod ar gael i bobl ifanc sy'n cysylltu â ni.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r holl weithwyr proffesiynol a roddodd o'u hamser i'n helpu gyda'r cyhoeddiad yma, ac yn fwyaf pwysig i'r bobl ifanc oedd mor barod i rannu eu profiadau gyda ni. Gadewch i ni nawr fod yn ddoeth a gwrando amyn nhw, a gweithredu ar sail hynny.

Keith Towler
Comisiynydd Plant Cymru

Blaenor- iaethau o ran Gwella Gwasanaeth

Materion a godwyd yn yr adroddiad	Ateb	Cyfrifoldeb pwy
1. Amrywiad yn y grant gadael gofal a'r cymorth ariannol i'r rhai sy'n gadael gofal	Mewn ymgynghoriad â phobl ifanc sydd wedi gadael gofal, Llywodraeth Cymru i adolygu'r cymorth ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n gadael gofal, gyda golwg ar bennu lefel dderbyniol o gefnogaeth, a rhoi arweiniad i awdurdodau lleol ynghylch hynny	Llywodraeth Cymru
2. Gorfod gadael gofal yn rhy ifanc	Llywodraeth Cymru i newid y ddeddfwriaeth, gan godi'r terfyn oedran pan fydd rhaid i berson ifanc adael lleoliad maeth / preswyl o 18 i 21	Llywodraeth Cymru
3. Diffyg fforwm genedlaethol i bobl ifanc mewn gofal i gwrdd a rhannu profiadau	Sefydlu fforwm genedlaethol Cymru-gyfan i blant a phobl ifanc mewn gofal	Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru
4. Diffyg eglurder ynghylch rôl yr ymgynghorydd personol	Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i gynnal adolygiad cenedlaethol o rôl yr ymgynghorydd personol a'r gwaith mae'n ei wneud gyda'r rhai sy'n gadael gofal er mwyn amlygu arfer da a nodi meysydd i'w gwella a'u datblygu	AGGCC
5. Plant sy'n Gadael Gofal ddim yn ymwybodol o'r hyn y gallan nhw ei hawlio, a heb wybodaeth a dealltwriaeth am hawliau megis cynlluniau llwybr, cynlluniau addysg personol ac eiriolaeth	AGGCC i ystyried cyfres o archwiliadau dirybudd yn achos timau gadael gofal er mwyn canolbwyntio ar brofiad bywyd plant sy'n symud o ofal i annibyniaeth, gan amlygu arfer da a nodi meysydd i'w gwella a'u datblygu	AGGCC

Materion a godwyd yn yr adroddiad	Ateb	Cyfrifoldeb pwyl
6. Diffyg ymateb cydlynus wrth nodi ac ymateb i hawliau'r rhai sy'n gadael gofal a'r pethau y dylent eu derbyn	Fel rhan o Fframwaith Adroddiadau Blynyddol y Cynghorau (ACRF), mae'n rhaid i gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol sicrhau fod eu dadansoddiad o effeithiolrwydd yn cynnwys hunanasesiad o wasanaethau gadael gofal sy'n darparu gwybodaeth am eu cyrchfannau llety, eu cyrchfannau cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg, dyrannu Gweithwyr Cymdeithasol / Ymgynghorwyr Personol i'r rhai sy'n gadael gofal, cyraeddiadau addysgol y rhai sy'n gadael gofal, eu profiadau iechyd, adborth gan y bobl ifanc a adawodd ofal yn ystod y flwyddyn flaenorol ac unrhyw wybodaeth arall berthnasol	Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
7. Rhai plant yn teimlo bod y term "Gadael Gofal" yn fygythiol a "Brawychus"	Penaethiaid Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i newid enwau'r timau gadael gofal/ôl-ofal i dîm Cefnogi Gofal y Dyfodol	Gwasanaethau Plant Awdurdodau Lleol
8. Diffyg ymateb cydlynus wrth nodi ac ymateb i hawliau'r rhai sy'n gadael gofal a'r pethau y dylent eu derbyn	ADSS Cymru, CLILC, Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru i nodi prif negeseuon yr adroddiad hwn wrth ddatblygu set data i gynorthwyo gwelliannau gwasanaethau wrth iddyn nhw weithio tuag at fframwaith gwelliannau perfformio	Aelod arweiniol Awdurdod Lleol ar gyfer plant a phobl ifanc

Materion a godwyd yn yr adroddiad	Ateb	Cyfrifoldeb pwyl
9. Diffyg ymateb cydlynus wrth nodi ac ymateb i hawliau'r rhai sy'n gadael gofal a'r pethau y dylent eu derbyn	Yn dilyn cyhoeddi'r ACRF, dylai'r pwyllgor craffu a throsolwg (debygol o fod y pwyllgor plant) sicrhau fod pobl ifanc sy'n symud ymlaen i fyw'n annibynnol cael eu cynnwys yn rhaglen waith y pwyllgor	Aelod arweiniol Awdurdodau Lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
10. Diffyg cyrhaeddiad cymwysterau a chyffleoedd profiad gwaith i rai sy'n gadael gofal	Yr aelod arweiniol i gychwyn trafodaeth yn y cyngor ynghylch datblygu profiad gwaith / prentisiaethau / cyffleoedd addysgol i'r rhai sy'n gadael gofal, a fyddai fel arall yn cael eu categorio fel rhai heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Yr awdurdod lleol i ddatblygu cynllun gweithredu gyda thargedau clir ar gyfer gwella'r canlyniadau ar gyfer y grŵp yma sy'n gadael gofal	Aelod arweiniol Awdurdodau Lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
11. Diffyg opsiynau llety addas ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal	Aelodau arweiniol ar gyfer plant a phobl ifanc i sicrhau bod gwasanaethau'r awdurdod lleol yn darparu ac yn hyrwyddo ystod o opsiynau llety addas ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal, i'w helpu i symud i annibyniaeth	Aelod arweiniol Awdurdodau Lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
12. Y rhai sy'n gadael gofal ddim yn ymwybodol o'u hawliau	Yr aelod arweiniol a phennaeth gwasanaethau plant a theuluoedd i sicrhau bod copi papur o "Fy Nghynllunyydd" yn cael ei ddarparu bob person ifanc mewn gofal ar eu pen-blwydd yn 15 a sicrhau, a bod gwybodaeth ynghylch "Fy Nghynllunyydd" ar gael i bawb sy'n gadael gofal ar wefan yr awdurdod lleol	Aelod arweiniol Awdurdodau Lleol ar gyfer plant a phobl ifanc a phennaeth gwasanaethau plant a theuluoedd

Materion a godwyd yn yr adroddiad	Ateb	Cyfrifoldeb pwyl
13. Y rhai sy'n gadael gofal heb eu gweithiwr cymdeithasol a'u hymgyngorydd personol eu hun	Awdurdodau lleol i gadw at ddarpariaethau deddfwriaethol Deddf Plant (yn gadael gofal) 2000, gan sicrhau bod pawb sy'n gadael gofal yn cael mynediad at ymgynghorydd personol a gweithiwr cymdeithasol	Gwasanaethau Plant Awdurdodau Lleol
14. Angen cymorth ymarferol/ emosiynol parhaus ar y rhai sy'n gadael gofal ar ôl iddyn nhw gyrraedd 18 oed	Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn partneriaeth â sefydliadau gwirfoddol, a chan ymgynghori â phlant a phobl ifanc, yn datblygu cyfleuster cymorth "galw heibio" ar gyfer pawb sy'n gadael gofal hyd at 25 oed. Bydd yn darparu cyngor, arweiniad, hyfforddiant sgiliau byw'n annibynnol, a chefnogaeth emosiynol	Gwasanaethau Plant Awdurdodau Lleol
15. Rhai sy'n gadael gofal sydd am fynd ymlaen i addysg bellach yn ansicr pa gymorth y gallan nhw ei hawlio o ran llety ac arian wrth adael yr ysgol a gofal	Tîmau Gadael Gofal i gyhoeddi canllawiau clir, wedi eu diweddarau, ynghylch cymorth ariannol a llety ar ddechrau pob blwyddyn ariannol	Gwasanaethau Plant Awdurdodau Lleol
16. Gwasanaeth Ymwelwyr Annibynnol ddim wedi'i ariannu'n ddigonol	Penaethiaid Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i adolygu trefniannau cyfredol a'i newid lle bo angen	Gwasanaethau Plant Awdurdodau Lleol

Materion a godwyd yn yr adroddiad	Ateb	Cyfrifoldeb pwyl
17. Lleoliadau Maeth yn dod i ben yn 18 oed	Penaethiaid Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i gynllunio newid lleoliadau maeth yn lleoliadau llety gyda chymorth hyd at 21 oed ar gyfer yr holl bobl ifanc a'u gofalmwr maeth sy'n gofyn am hynny	Gwasanaethau Plant Awdurdodau Lleol
18. Rhai sy'n gadael gofal yn methu dychwelyd i'r lleoliad gofal os bydd ymdrechion i fyw'n annibynnol wedi methu	Penaethiaid Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i sicrhau bod pobl ifanc yn gwybod y gallan nhw ddychwelyd i'r lleoliad gofal os bydd byw'n annibynnol yn methu	Gwasanaethau Plant Awdurdodau Lleol
19. Y rhai sy'n gadael gofal ddim yn gwybod am wasanaethau eiriolaeth a/neu ddim yn gallu cael mynediad iddynt	Pennaeth y gwasanaethau plant a theuluoedd i sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal yn cael eu hyrwyddo'n effeithiol ac ar gael yn hwylus i bawb hyd at 21 oed sy'n gadael gofal	Gwasanaethau Plant Awdurdodau Lleol
20. Y rhai sy'n gadael gofal heb sgiliau hanfodol ar gyfer llwyddo i fyw'n annibynnol	<p>Staff hyfforddi Gwasanaethau Cymdeithasol yn datblygu cyfres o sgiliau byw'n annibynnol wedi eu hachredu ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal. Adnodd hyfforddi i gynnwys rheolaeth ariannol, coginio, glanhau, hylendid personol, gwydnwch emosiynol, bod yn gymydog da, sgiliau datrys problemau, cyngor ar iechyd</p> <p>Staff y fîm Cefnogi Gofal y Dyfodol yn rhoi cyfle i'r holl PDG sy'n paratoui i adael gofal gyrchu hyfforddiant perthnasol</p>	<p>Adrannau hyfforddi Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol a rheolwyr Gadael Gofal</p> <p>Tim Cefnogi Gofal y Dyfodol</p>

Materion a godwyd yn yr adroddiad	Ateb	Cyfrifoldeb pwy
21. Staff preswyl a gofalwyr maeth ddim yn ymwybodol amrywiaeth o faterion a all fod yn berthnasol i'r rhai sy'n gadael gofal a'r cymorth y gallai fod ei angen arnynt yng nghyswllt eu symudiad i annibyniaeth	Gwasanaethau Cymdeithasol yn datblygu a darparu modiwl hyfforddi "cynllunio pontio" ar gyfer yr holl ofalwyr maeth a staff preswyl sy'n gofalu am blant a fydd yn symud o ofal i annibyniaeth. Pwrpas y modiwl hwn fydd sicrhau bod yr holl staff gofal yn gweithio i wella cyfleoedd i bontio'n llwyddiannus o ofal i annibyniaeth, a bod gwaith gofalwyr maeth/staff preswyl gyda'r person ifanc yn ategu gwaith y gweithiwr cymdeithasol a'r ymgynghorydd personol	Adrannau hyfforddi Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol
22. Barnu bod y rhai sy'n gadael gofal yn ddigartref yn fwriadol wedi i'w tenantiaeth gyntaf fethu	Adrannau tai i newid polisi lleol lle bo angen er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n gadael gofal yn cael ail neu drydydd cyfle i wneud i denantiaeth lwyddo	Adrannau Tai Awdurdodau Lleol
23. Y rhai sy'n gadael gofal yn cael trafferth gyda chyfrifoldebau rheoli eu tenantiaeth eu hunain	Adrannau Tai i gynnig cymorth tenantiaeth i bawb hyd at 21 oed sy'n gadael gofal	Adrannau Tai Awdurdodau Lleol

Materion a godwyd yn yr adroddiad	Ateb	Cyfrifoldeb pwy
24. Gweithwyr cymdeithasol / Ymgynghorwyr personol yn anwybodus am opsiynau tai, cymorth gyda thenantiaeth, a materion eraill cysylltiedig â thai, ac felly yn analluog i gynnig y cyngor gorau a mwyaf buddiol i'r rhai sy'n gadael gofal	Adran Tai i gynnig digwyddiadau hyfforddi/ briffio blynyddol i weithwyr cymdeithasol/ ymgynghorwyr personol i roi'r wybodaeth angenrheidiol iddynt fel eu bod yn gallu rhoi cyngor/cefnogaeth effeithiol i'r rhai sy'n gadael gofal yng nghyswllt llety symud ymlaen	Adrannau Tai Awdurdodau Lleol
25. Does dim digon o stoc addas o dai i bobl ifanc sy'n symud i fyw'n annibynnol	Adran Tai, mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Plant i adolygu lefel o dai addas, amcanestyn nifer fydd angen a chynllunio'n briodol	Adrannau Tai Awdurdodau Lleol
26. Gweithwyr cymdeithasol/ Ymgynghorwyr personol yn anwybodus o lwybrau i addysg bellach ac uwch a hyfforddiant, ac felly ddim yn medru cynnig y cyngor gorau a mwyaf buddiol i'r rhai sy'n gadael gofal	Addysg/y Gwasanaeth Gyrfaoedd i gynnig digwyddiadau hyfforddi/ briffio blynyddol i weithwyr cymdeithasol/ ymgynghorwyr personol i roi'r wybodaeth angenrheidiol iddynt fel eu bod yn gallu rhoi cyngor/cefnogaeth effeithiol i'r rhai sy'n gadael gofal yng nghyswllt materion addysg, hyfforddiant a chyflogaeth	Adrannau Addysg Awdurdodau Lleol / gwasanaethau gyrfaoedd lleol

Materion a godwyd yn yr adroddiad	Ateb	Cyfrifoldeb pwy
27. Rôl Athrawon dynodedig PDG heb ei deall yn iawn na'i chymhwysu'n gyson mewn lleoliadau ysgol	Cyfarwyddwr Addysg a'r Gwasanaethau cymdeithasol i gytuno ar ganllawiau arfer gorau ar gyfer rôl athrawon dynodedig PDG mewn ysgolion lleol, ac i ddatblygu a darparu pecyn hyfforddiant ar y cyd ar gyfer yr holl athrawon PDG dynodedig	Addysg a Gwasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol
28. Y rhai sy'n gadael gofal yn adrodd bod ansawdd ac adolygu cynlluniau llwybr yn anghyson	Swyddogion Adolygu Annibynnol i sicrhau eu bod yn cynnal trosolwg o adolygiadau cynlluniau llwybr ar gyfer plant perthnasol, ac os nad yw'r trefniadau'n foddhaol, yn cynnull adolygiad ychwanegol	Swyddogion Adolygu Annibynnol
29. Mae rhai sydd mewn gofal yn wynebu problemau wrth gpfrestri â meddyg teulu	Byrddau Iechyd Lleol i ystyried danfon canllawiau i feddygon teulu yn amlinellu arfer gorau o weithio gyda phlant a phobl ifanc mewn gofal	Byrddau Iechyd Lleol

Cysylltwch â ni:

Rhadffôn: **0808 801 1000**

Tecstiwch ni am ddim: **80800 gan ddechrau eich neges â COM**

Ebostiwch ni: **post@complantcymru.org.uk**

Ysgrifennwch aton ni: **Comisiynydd Plant Cymru, Rhadbost RRGL XLYC BHGC, Abertawe SA7 9FS**

Ffoniwch ni: **01792 765600 // 01492 523333**

Dilynwch ni ar Twitter: **@complantcymru**

Ewch i: **www.complantcymru.org.uk**

Os hoffech gael fersiwn o'r adroddiad hwn mewn iaith wahanol, neu mewn print bras, Braille neu ar dâp sain.

Anfonwch e-bost i cyhoeddiadau@complantcymru.org.uk neu ffoniwch 01792 765600